

Y
Comisiwn
Etholiadol

Refferendwm yr UE 2016



Adroddiad ar reoleiddio ymgyrchwyr yn
y refferendwm ar aelodaeth y DU o'r
Undeb Ewropeaidd a gynhaliwyd ar 23
Mehefin 2016

Mawrth 2017

Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth am sut i gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu mewn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: publications@electoralcommission.org.uk

Rydym yn gorff annibynnol a sefydlwyd gan Senedd y DU. Rydym yn rheoleiddio cyllid pleidiau ac etholiadau ac yn gosod safonau ar gyfer etholiadau a gynhelir yn dda. Rydym yn gweithio i gefnogi democratiaeth iach, lle y seilir etholiadau a refferenda ar ein hegwyddorion sef ymddiriedaeth, cyfranogiad a dim dylanwad gormodol.

Cynnwys

Rhagair	2
Crynodeb ac argymhellion	4
1. Ariannu'r ymgyrchoedd a gwariant ar ymgyrchu	11
Deddfwriaeth	11
Y fframwaith rheoleiddio	11
Ffeithiau a ffigurau allweddol	14
• Cyfanswm y rhoddion i bob ymgyrchydd (heb gynnwys pleidiau gwleidyddol)	16
• Cyfanswm y benthyciadau i bob ymgyrchydd (heb gynnwys pleidiau gwleidyddol)	16
• Rhoddion yn ôl y math o roddwr (heb gynnwys pleidiau gwleidyddol)	17
• Cyfanswm gwariant ymgyrchwyr yn erbyn y terfynau cyfunol	18
• Gwariant gan ymgyrchwyr arweiniol dynodedig a phleidiau gwleidyddol	19
2. Rheoleiddio a gorfodi	20
Cyngor	21
Ymriadau rheoleiddiol yn ystod yr ymgyrch	21
3. Gwersi ar gyfer refferenda yn y dyfodol	26
Cyllid ymgyrchu	26
Rheoleiddio benthyciadau	26
Rhoddwyr a benthycwyr a ganiateir	27
Grant sydd ar gael i ymgyrchwyr arweiniol	31
Gwariant ar ymgyrchu	33
Terfynau gwario	33
Costau staff	36
Rheoleiddio ymgyrchwyr sy'n mynd i wariant ar y cyd	37
Argraffnodau ar ddeunydd electronig	42
Cyfryngau cymdeithasol	43
Rheoleiddio cywirdeb a gwirionedd deunydd ymgyrchu	44
Gwariant y Llywodraeth	45
Proses ar gyfer hawliadau a thaliadau hwyr	46
Adrodd	47
Adrodd cyn y bleidlais ar roddion a benthyciadau	47
Cofnodi lefel isel owariant	49
Cofnodi gwariant wedi'i reoleiddio cyn cofrestru	51
Datganiadau ffurflenni	51
Cyfnod o amser i gyflwyno ffurflenni ar ôl y refferendwm	52
Gorfodi'r rheolau	53
Uchafswm dirwyon y Comisiwn Etholiadol	53

Rhagair

Un o nodweddion diffiniol y refferendwm ar aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd oedd lluosogrwydd lleisiau yn y ddadl, fel y dangoswyd gan y niferoedd uchel o ymgyrchwyr a gofrestrodd â'r Comisiwn Etholiadol.

Rhaid i ddadl wleidyddol iach gael ei hategu gan gyfundrefn reoleiddio gadarn. Dylai cyfundrefn o'r fath sicrhau cydymffurfiaeth â set gyffredin o reolau i bob ymgyrchydd, galluogi cyfranogwyr i gael eu hariannu mewn ffyrdd amrywiol a digonol, heb i arian ddominyddu mewn ffordd ormodol, a sicrhau tryloywder i bleidleiswyr. Cymerodd y Comisiwn gamau rhagweithiol wrth reoleiddio'r refferendwm; cyn ac yn ystod y cyfnod yr oedd rheolaethau ar waith, gweithiodd staff y Comisiwn gydag ymgyrchwyr cofrestredig a phobl a sefydliadau eraill â diddordeb er mwyn sicrhau eu bod yn deall y rheolau ac i fonitro gweithgarwch ymgyrchu. Rhydd yr adroddiad hwn drosolwg o'r broses hon, ynghyd ag argymhellion y Comisiwn ar gyfer gwella'r system sy'n llywodraethu refferenda yn y dyfodol.

Yn gyffredinol, gweithiodd y rheoliadau ariannol oedd yn eu lle ar gyfer y refferendwm yn dda, gan gynnwys gwneud newidiadau pwysig a argymhellwyd gan y Comisiwn a ymgorfforwyd yn y ddeddfwriaeth derfynol gan Lywodraeth a Senedd y DU. Er bod cynnwys gwersi a ddysgwyd o refferenda blaenorol yn y ddeddfwriaeth benodol hon yn gam pwysig, dylai'r diwygiadau hyn hefyd gael eu hymgorffori yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, sy'n darparu'r fframwaith sylfaenol ar gyfer refferenda'r DU yn y dyfodol. Cafodd y pwynt hwn ei wneud yn adroddiad cyntaf y Comisiwn ar y refferendwm, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2016. Mae'r dadansoddiad a geir yn yr adroddiad hwn yn ategu'r casgliad hwnnw.

Wrth gwrs, mae cyllid yn rhan annatod o unrhyw ymgyrch, oherwydd rhaid bod gan gyfranogwyr ddigon o adnoddau i allu cyflwyno eu dadleuon i bleidleiswyr; fodd bynnag, mae'r un mor bwysig bod cyllid yn bodloni'r egwyddorion sy'n sail i gyfundrefn Deddf 2000. Dyna pam mae'r Comisiwn wedi gwneud sawl argymhelliad yn yr adroddiad hwn ynghylch sicrhau tegwch a chysondeb wrth reoli cyllid a ganiateir. Er enghraifft, mae absenoldeb rheolaethau ar fenthyciadau mewn refferenda Deddf 2000 yn fwllch sylweddol, a dylai Llywodraeth y DU unioni'r sefyllfa honno.


Mae gwariant ar ymgyrchu – gan gynnwys terfynau gwario – yn destun cryn graffu gan lawer. Senedd y DU a ddylai ystyried pa lefel fyddai fwyaf priodol i bennu trothwyon gwario arni; fodd bynnag, o ystyried y newidiadau mewn ymgyrchu modern a phrofiadau'r ymgyrchwyr arweiniol yn y refferendwm hwn, credwn y byddai'n ddefnyddiol i'r sawl sy'n llunio polisiau gynnal adolygiad o'r fath yn nghyd-destun refferenda'r dyfodol. Ar yr un pryd, dylai Senedd y DU ystyried y rheolaethau ar wariant ar y cyd a ymgorfforwyd yn y ddeddfwriaeth ar gyfer y refferendwm hwn; credwn y dylai'r rheolaethau ychwanegol hyn, er eu bod i'w croesawu, gael eu hegluro cyn cael eu hymgorffori yn Neddf 2000. Byddem hefyd yn croesawu newid deddfwriaethol sy'n cau'r bwlch mewn rhan sylweddol o wariant ar ymgyrchu mewn etholiadau a refferenda, lle nad oes

rhaid i gostau staff sy'n gysylltiedig ag ymgyrch gael eu cynnwys yn y terfynau ar gyfer gwariant ar ymgyrchu mewn refferendwm.

Hefyd, argymhellwn y dylai darpariaethau ar gyfer adrodd ar ymgyrchoedd a oedd ar waith ar gyfer Refferendwm yr UE gael eu cynnwys yn Neddf 2000. Cafodd rhoddion a benthyciadau eu cofnodi gan ymgyrchwyr cyn y bleidlais yn llwyddiannus yn y cyfnodau cyn refferendwm yr UE a'r refferendwm ar annibyniaeth yn yr Alban. Ar y ddau achlysur hyn, gallai pleidleiswyr weld o ble y daeth cyllid ymgyrchwyr yn ystod y cyfnod a reoleiddir a chyn iddynt fwrw eu pleidlais, gan felly atgyfnerthu gwerth ymarferol tryloywder. Ffactor arall sy'n cyfrannu at dryloywder yw cofrestru ymgyrchwyr, sy'n gosod nifer o gyfrifoldebau ar ymgyrchwyr. Er mwyn atal ymgyrchwyr rhag cofrestru'n hwyrach i osgoi tryloywder llawn, mae'r adroddiad hwn yn argymhell y dylai ymgyrchwyr orfod cyflwyno rhestr o'u gwariant cyn cofrestru gyda'r Comisiwn yn eu ffurflen gwariant derfynol.

Dylai cyfundrefn reoleiddio gadarn anelu at hyrwyddo tegwch a thryloywder, a lleihau'r cyfleoedd i osgoi cyflawni'r egwyddorion hanfodol hyn; mae rhan o hyn yn dibynnu ar arf ataliol effeithiol sancsiynau cymesur. Ar hyn o bryd, £20,000 yw'r ddirwy fwyaf y gall y Comisiwn ei rhoi. Dylai'r terfyn hwn gael ei adolygu a'i gynyddu er mwyn sicrhau cymesuredd â'r symiau a godir ac a warir fel rhan o refferenda'r DU.

Fel y rheoleiddiwr yn y maes hwn, mae'r Comisiwn mewn sefyllfa unigryw i roi arweiniad ar sut y gall y fframwaith rheoleiddio barhau i fod yn effeithiol, yn berthnasol ac yn gymesur. Byddai ymgorffori'r argymhellion a wneir yn yr adroddiad hwn, ynghyd â'r rheini a wnaed ym mis Medi 2016, yn arwain at atgyfnerthu ein system reoleiddio ac yn sicrhau ei bod yn addas i gynnal refferenda yn y dyfodol.



Syr John Holmes, Cadeirydd y Comisiwn Etholiadol

Crynodeb ac argymhellion

Ynglŷn â'r refferendwm

Canolbwyntiodd ein hadroddiad cyntaf ar refferendwm yr UE, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2016¹, ar y broses o weinyddu'r refferendwm, gan gynnwys profiad pleidleiswyr ac ymgyrchwyr, rheoli a chynnal y bleidlais, rheoleiddio ymgyrchwyr yn y refferendwm a rhoi gwybodaeth i bleidleiswyr.

Mae'r ail adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am y defnydd o'n pwerau ymchwilio a sancsiynu ac yn dadansoddi cyllid a gwariant y bobl a'r sefydliadau hynny a gofrestrodd i ymgyrchu. Lle bo'n briodol, gwnawn argymhellion er mwyn llywio'r gwaith o reoleiddio refferenda yn y dyfodol yn seiliedig ar y wybodaeth yr oedd angen i ymgyrchwyr ei chyflwyno yn eu ffurflenni gwariant a rhoddion.²

Ariannu'r ymgyrchoedd a gwariant ar ymgyrchu

Ar ôl refferendwm yr UE, bu'n ofynnol i ymgyrchwyr cofrestredig gyflwyno ffurflen gwariant a rhoddion ymgyrchu i'r Comisiwn. Roedd y ffurflenni'n cynnwys manylion gwariant yr ymgyrchwyr ar ymgyrchu yn y refferendwm ynghyd â'r holl roddion a benthyciadau a dderbyniwyd ganddynt a oedd dros £7,500. Roedd hefyd yn ofynnol i ymgyrchwyr ddarparu cyfanswm ffigur unrhyw roddion a benthyciadau a oedd rhwng £500 a £7,500. Ni chafodd unrhyw beth a oedd yn £500 neu lai ei gyfrif yn rhodd nac yn fenthyciad at ddiben rheolau'r refferendwm.

Gofynnwyd i ymgyrchwyr a oedd yn bleidiau gwleidyddol cofrestredig roi manylion yr hyn a wariwyd ganddynt ar ymgyrchu yn y refferendwm. Fodd bynnag, nid oedd yn ofynnol iddynt nodi rhoddion na benthyciadau tuag at y gwariant hwnnw yn ystod neu ar ôl y refferendwm (oni bai eu bod yn bleidiau llai). Mae'r rheolau rheoleiddiol ar bleidiau gwleidyddol yn sicrhau y rheolir ffynonellau cyllid a'u bod yn dryloyw.³

Daw'r data yn yr adroddiad hwn o'r ffurflenni statudol a gyflwynwyd gan ymgyrchwyr ar 23 Medi 2016 a 23 Rhagfyr 2016. Bydd unrhyw newidiadau yn y data ar gyllid ymgyrchu sy'n deillio o'n gwaith parhaus ar gydymffurfiaeth ar gael ar ein gwefan.

¹ [Y Comisiwn Etholiadol, *The 2016 EU referendum - Report on the 23 June 2016 referendum on the UK's membership of the European Union \(Medi 2016\)*.](#)

² Ceir rhagor o wybodaeth gefndir am refferendwm yr UE yn ein hadroddiad cyntaf.

³ [Mae gwybodaeth am y rhoddion a'r benthyciadau a wnaed i bleidiau gwleidyddol](#) ar gael ar ein gwefan.

Yn gryno:

- Cofrestrodd 123 o ymgyrchwyr â'r Comisiwn o 1 Chwefror 2016 - nododd 63 eu bod o blaid 'Aros' ac roedd 60 o blaid 'Gadael'. Rhydd Atodiad 1 restr o'r ymgyrchwyr a gofrestrodd ar gyfer pob canlyniad.
- Nododd ymgyrchwyr cofrestredig eu bod wedi gwario cyfanswm o £32,642,158 yn ymgyrchu yn refferendwm yr UE a nodwyd eu bod wedi derbyn gwerth £30,714,106 mewn rhoddion a £6,071,940 o fenthyciadau.
- Nododd ymgyrchwyr a gofrestrodd i ymgyrchu dros aros yn yr UE eu bod wedi gwario £19,309,588.
- Nododd ymgyrchwyr a gofrestrodd i ymgyrchu dros adael yr UE eu bod wedi gwario £13,332,569.
- Nododd y ddau ymgyrchydd arweiniol dynodedig eu bod wedi gwario cyfanswm o £13,510,049 - nododd The In Campaign Ltd ei fod wedi gwario £6,767,584; a nododd Vote Leave Ltd ei fod wedi gwario £6,742,466.
- Nododd y pleidiau gwleidyddol a gofrestrodd i ymgyrchu yn refferendwm yr UE eu bod wedi gwario £9,030,300.
- Nododd 58 o ymgyrchwyr cofrestredig eraill eu bod wedi gwario £10,101,809.⁴
- O'r cyfanswm rhoddion a gofnodwyd, sef £30,714,106, mae'r rhoddion a gofnodwyd i'r sawl a gofrestrodd i ymgyrchu dros y canlyniad 'Gadael' yn £15,854,432 ac ar gyfer y canlyniad 'Aros' mae'n £14,859,673; mae hyn yn 52% ac yn 48% o gyfanswm y rhoddion a gofnodwyd yn y drefn honno.

Ceir rhagor o wybodaeth am gyllid a gwariant yr ymgyrchwyr cofrestredig yn refferendwm yr UE ar ein gwefan.⁵ Mae ein gwefan hefyd yn cynnwys siartiau sy'n galluogi defnyddwyr i ddadansoddi'r data.⁶

⁴ Cyflwynodd 48 o ymgyrchwyr eraill naill ai 'dim' neu ddatganiadau gwario a oedd o dan y trothwy cofrestru, gan gynnwys 10 o bleidiau gwleidyddol eraill. Methodd saith ymgyrchydd â chyflwyno ffurflenni ac maent yn destun camau gorfodi.

⁵ [Mae gwybodaeth am y cyllid a'r gwariant a gofnodwyd ar gyfer ymgyrch refferendwm yr UE ar gael ar ein gwefan.](#)

⁶ Mae'r data yn yr adroddiad hwn yn gywir ar adeg cyhoeddi. Fodd bynnag, yn dibynnu ar yr hidlyddion penodol a ddewisir gan ddefnyddwyr, efallai na fydd y canlyniadau sy'n deillio o ddadansoddi'r data ar ein gwefan bob amser yn cyfateb i'r ffigurau yn yr adroddiad hwn. Gellir hefyd ychwanegu neu gyfnwio data ar ein gwefan yn sgil canlyniad ein gweithgarwch cydymffurfio.

Rheoleiddio a gorfodi

Nod ein gweithgarwch rheoleiddio yn ystod ymgyrch y refferendwm oedd atal unrhyw achos o dorri'r rheolau ar wariant yn ystod yr ymgyrch. Er mwyn gwneud hyn defnyddiwyd amrywiaeth o adnoddau rheoleiddio, gan gynnwys darparu gwasanaeth cynghori i ymgyrchwyr a'r cyhoedd, yn ogystal â monitro'r ymgyrchoedd er mwyn nodi gweithgarwch a allai dorri'r rheolau ac ymwneud ag ef.

Lle bo'n briodol, yn gymesur ac yn angenrheidiol, gwnaethom gymryd camau rheoleiddio neu orfodi, gan gynnwys ymchwiliadau a arweiniodd at sancsiynau. Rhoddir rhagor o fanylion ym Mhennod 2. Rydym yn hyderus bod ein gweithgarwch rheoleiddio yn ystod yr ymgyrch wedi atal achosion difrifol o dorri'r rheolau. Fodd bynnag, rydym yn ystyried nifer o faterion o dan ein Polisi Gorfodi⁷ yn dilyn arolygiad cychwynnol o'r ffurflenni gwariant a rhoddion a gyflwynwyd gan ymgyrchwyr.

Gwersi ar gyfer refferenda yn y dyfodol

Fel digwyddodd mewn refferenda blaenorol a gynhaliwyd o dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, cafodd nifer o newidiadau a gwelliannau eu gwneud i'r rheolaethau rheoleiddiol yn benodol ar gyfer refferendwm yr UE. Cafodd y newidiadau hyn eu gwneud gan Senedd y DU o dan Ddeddf benodol Refferendwm yr UE 2016 ac is-ddeddfwriaeth gysylltiedig, yn hytrach na diweddarau'r rheolau safonol ar gyfer refferenda a amlinellwyd yn Neddf 2000. Mae hyn yn golygu na fydd y newidiadau hynny'n gymwys i refferenda yn y dyfodol, oni bai eu bod unwaith eto yn cael eu cynnwys mewn deddfwriaeth benodol ar refferendwm.

Yn gyffredinol, gweithiodd y rheolaethau ariannol a roddwyd ar waith yn refferendwm yr UE yn dda a gwellwyd ar y rheolau a oedd yn gymwys mewn refferenda blaenorol. Fodd bynnag, gwnaethom nifer o argymhellion y bwriadwyd iddynt wella'r gwaith rheoleiddio a lleihau'r baich ar ymgyrchwyr mewn refferenda yn y dyfodol yn ein hadroddiad cyntaf a gyhoeddwyd ym mis Medi 2016.

Rydym wedi nodi rhagor o wersi i'w dysgu o'r wybodaeth y bu'n ofynnol i ymgyrchwyr ei rhoi yn eu ffurflenni gwariant a rhoddion er mwyn mireinio ymhellach y fframwaith cyfreithiol mewn perthynas â chyllid a gwariant ymgyrchoedd a rhoi gwybod am hynny. Yn eu plith mae argymhellion pwysig i gynyddu tryloywder yn y misoedd hynny cyn y refferendwm drwy nodi y dylid rhoi proses adrodd cyn y bleidlais ar waith ar gyfer pob refferendwm a gynhelir yn y DU yn y dyfodol, a helpu i sicrhau uniondeb ac effeithiolrwydd rheolau gwariant y refferendwm drwy egluro'r rheolau sy'n gymwys pan fo ymgyrchwyr yn mynd i wariant ar y cyd. Mae ein gweithgarch cydymffurfiaeth yn mynd rhagddo, a gallai gynnwys gwersi i'w dysgu ar gyfer rheoleiddio ariannol yn y dyfodol.

⁷ [Y Comisiwn Etholiadol, Polisi Gorfodi \(Daeth i rym 5 Ebrill 2016\).](#)

Rydym hefyd wedi ailddatgan nifer o'n hargymhellion blaenorol. Mae'r rhain yn cynnwys nodi y dylai'r cyfyngiadau statudol ar gyhoeddi deunydd hyrwyddo gan Lywodraethau a chyrrff cyhoeddus eraill gael eu hailddrafftio'n sylweddol cyn unrhyw refferendwm arall, ac y dylai costau staff sy'n gysylltiedig ag ymgyrch gael eu cynnwys yn y terfynau ar wariant ymgyrchu pleidiau gwleidyddol mewn etholiad neu refferendwm.

Isod ceir trosolwg o'r holl argymhellion a wneir yn yr adroddiad hwn, sy'n adeiladu ar y 15 o argymhellion a wnaed yn ein hadroddiad cyntaf (caiff y rhain eu hailadrodd yma hefyd, yn atodiad 2). Lle bo'n briodol, argymhellwn y dylai rhai newidiadau gael eu hymgorffori yn Neddf 2000 fel eu bod yn gymwys i bob refferendwm a gynhelir yn y dyfodol.

Argymhellion ar gyfer refferenda yn y dyfodol

Cyllid ymgyrchu

Argymhelliad 1: Dylai rheolaethau ar fenthyciadau gael eu hymgorffori yn Neddf 2000.

Mae absenoldeb rheolaethau ar fenthyciadau yn rheolau refferendwm Deddf 2000 yn fwch sylweddol o ran rheoleiddio refferenda. Dylai Llywodraeth y DU gyflwyno'r is-ddeddfwriaeth berthnasol er mwyn cynnwys rheolaethau ar fenthyciadau ym mhob refferendwm a gynhelir yn y dyfodol o dan fframwaith Deddf 2000.

Argymhelliad 2: Dylai'r unigolion a'r cyrrff hynny sy'n gymwys i gofrestru ac ymgyrchu ar gyfer refferendwm fod yr un peth â'r ymgyrchwyr cymwys hynny nad ydynt yn bleidiau mewn etholiadau. Dylid ystyried gallu ymgyrchwyr cymwys ychwanegol i roi a benthyg i ymgyrchwyr refferendwm arall.

Dylai'r rhestr o unigolion a chyrrff sy'n gymwys i gofrestru fel ymgyrchydd mewn refferendwm fod yn gydnaws â'r rhestr o ymgyrchwyr cofrestredig cymwys nad ydynt yn bleidiau o dan Ddeddf 2000.

Dylid ystyried gallu ymgyrchwyr cymwys ychwanegol i roi a benthyg i ymgyrchwyr refferendwm arall. Bydd hi'n bwysig bod unrhyw newidiadau i gategoriâu o roddwyr a ganiateir yn cael eu diffinio'n glir, yn benodol o ran pleidiau gwleidyddol sy'n cofrestru i ymgyrch mewn refferendwm.

Argymhelliad 3: Dylai Llywodraeth a Senedd y DU ailystyried y rheolaethau ar gadarnhau a yw cwmni yn rhoddwr a ganiateir.

Yn sgil y ffaith nad yw rheolaethau Deddf 2000 o ran cadarnhau a yw cwmni yn rhoddwr a ganiateir yn adlewyrchu argymhellion y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus yn llawn, ynghyd â goblygiadau'r prawf presennol o ran a yw cwmni yn rhoddwr a ganiateir a danlinellwyd gan ein hymchwiliadau, dylai Llywodraeth y DU a, maes o law, y Senedd ailystyried y rheolaethau o ran a

yw cwmni yn rhoddwr a ganiateir er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni nod sylfaenol y polisi sef atal rhoddion a benthyciadau gan gwmnïau o dramor.

Argymhelliad 4: Dylai gallu'r Comisiwn i dalu'r grant ymgyrchydd arweiniol mewn rhandaliadau gael ei ymgorffori yn Neddf 2000.

Er mwyn gwarchod arian cyhoeddus a sicrhau bod y grant yn cael ei weinyddu'n effeithlon, dylai gallu'r Comisiwn i dalu'r grant sydd ar gael i ymgyrchwyr arweiniol mewn rhandaliadau gael ei ymgorffori yn Neddf 2000 fel ei fod yn gymwys i bob refferendwm a gynhelir yn y dyfodol.

Gwariant ar ymgyrchu

Argymhelliad 5: Dylai Llywodraeth a Senedd y DU ystyried y dystiolaeth o refferendwm yr UE wrth ystyried a yw terfynau gwario Deddf 2000 yn dal i fod yn briodol.

Nid oes gan y Comisiwn rôl statudol benodol o ran cynghori ar derfynau gwario mewn refferenda a gynhelir yn y DU o dan Ddeddf 2000. Serch hynny, mae'n bwysig bod Llywodraeth a Senedd y DU yn ystyried y dystiolaeth o refferendwm yr UE wrth ystyried a yw terfynau gwario refferendwm Deddf 2000, gan gynnwys y trothwy cofrestru, yn dal i fod yn briodol yng nghyd-destun unrhyw refferendwm a gynhelir yn y DU yn y dyfodol.

Argymhelliad 6: Dylai costau staff sy'n gysylltiedig ag ymgyrch gael eu cynnwys yn y terfynau ar wariant ymgyrchu pleidiau gwleidyddol mewn etholiad neu refferendwm.

Er mwyn sicrhau cysondeb rhwng y rheolaethau ar ymgyrchwyr refferendwm, staff ymgyrchu pleidiau, ymgeiswyr ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau, yn ogystal â chau bwlch mewn rhan fawr o wariant ymgyrchu mewn etholiadau a refferenda, dylai costau staff sy'n gysylltiedig ag ymgyrch gael eu cynnwys yn y terfynau ar wariant ymgyrchu pleidiau gwleidyddol mewn etholiad a refferendwm.

Argymhelliad 7: Dylai rheolaethau ar wariant ar y cyd gael eu hymgorffori yn Neddf 2000.

Er mwyn helpu i sicrhau uniondeb ac effeithiolrwydd y rheolau ar wariant mewn refferendwm, dylai rheolaethau priodol gael eu hymgorffori yn Neddf 2000 er mwyn rheoleiddio ymgyrchwyr sy'n mynd i wariant ar y cyd fel eu bod yn gymwys i bob refferendwm a gynhelir yn y dyfodol. Er mwyn gwella tryloywder a gorfodadwyedd, dylai'r rheolaethau gynnwys gofyniad i ymgyrchwyr gynnwys enwau'r rheini y gwnaethant weithio gyda nhw a faint y gwnaeth pob un ohonynt ei wario yn eu ffurflen gwariant ar ôl y refferendwm.

Er mwyn lleihau cymhlethdod a galluogi'r Comisiwn i roi cyngor ac arweiniad cliriach i ymgyrchwyr, dylai Llywodraeth a Senedd y DU egluro beth sy'n gyfystyr â gwariant ar y cyd at ddibenion rheoleiddio gwariant mewn ymgyrch refferendwm. Dylai hyn gynnwys y canlynol yn benodol:

- Gwneud yn glir beth yw cwmpas y term cyfreithiol 'cynllun neu drefniant arall'
- Diffinio beth a olygir gan y ffaith mai 'gan neu ar ran' y rheini sydd ynghlwm wrth y gwariant ar y cyd y mae'n rhaid mynd i dreuliau refferendwm
- Ystyried a ddylai'r rheolau ar wariant ar y cyd ei gwneud yn benodol ofynnol i bob un sydd dan sylw fynd i dreuliau refferendwm a reoleiddir ai peidio.

Yn ogystal â'r eglurhad uchod, pan gaiff y rheolaethau ar wariant ar y cyd eu hymgorffori yn Neddf 2000, dylai'r Comisiwn gael y pŵer i Lunio Cod Statudol er mwyn ein galluogi i egluro unrhyw faterion pellach a all godi yn y dyfodol.

Argymhelliad 8: Dylai lefel briodol o wybodaeth argraffnod fod yn ofynnol ar ddeunydd ymgyrchu refferendwm ar-lein ac electronig.

Er mwyn sicrhau bod pleidleiswyr yn gwbl glir ynghylch pwy yw'r ymgyrchwyr dan sylw, dylai lefel briodol o wybodaeth argraffnod fod yn ofynnol ar ddeunydd ymgyrchu refferendwm ar-lein ac electronig. Fodd bynnag, cyn cyflwyno'r fath ofynion, dylai Llywodraeth a Senedd y DU ystyried yn ofalus y gwersi a ddysgwyd o ddrafftio'r rheolau argraffnod yn Neddf Refferendwm Annibyniaeth yr Alban 2013 a'u rhoi ar waith. Byddem yn croesawu'r cyfle i weithio gyda'r Llywodraeth ar hyn.

Adrodd

Argymhelliad 9: Dylai gofynion adrodd cyn y bleidlais gael eu hymgorffori yn Neddf 2000 fel eu bod yn gymwys i bob refferendwm a gynhelir yn y dyfodol.

Er mwyn cynyddu tryloywder yn y misoedd cyn y refferendwm a helpu i annog ymgyrchwyr i sicrhau eu bod ond yn derbyn rhoddion gan ffynonellau a ganiateir, dylai gofynion adrodd cyn y bleidlais gael eu hymgorffori yn Neddf 2000 fel eu bod yn gymwys i bob refferendwm a gynhelir yn y dyfodol.

Os caiff deddfwriaeth y refferendwm ei phasio ond nad yw'n dod i rym yn syth, dylai'r ddeddfwriaeth alluogi'r gofyniad adrodd cyn y bleidlais i ddechrau cyn gynted â phosibl.

Argymhelliad 10: Dylai ond bod yn ofynnol i ymgyrchwyr sy'n gwario lefelau isel gyflwyno 'ffurflen dim' neu ddatgan swm eu gwariant os yw o dan y trothwy cofrestru.

Er mwyn taro cydbwysedd priodol rhwng lleihau'r beichiau gweinyddol ar ymgyrchwyr a gofrestrodd ond a wariodd lefelau isel yn unig, a sicrhau tryloywder o ran gwariant ymgyrch:

- Dylai'r gofynion i ymgyrchwyr cofrestredig gyflwyno 'ffurflen dim' neu ddatganiad eu bod wedi gwario llai na'r trothwy cofrestru perthnasol, yn hytrach na chwblhau ffurflen gwariant lawn, gael eu hymgorffori yn Neddf 2000 fel eu bod yn gymwys i bob refferendwm a gynhelir yn y dyfodol.

- Pan fo ymgyrchydd yn cyflwyno datganiad ei fod wedi gwario llai na'r trothwy cofrestru perthnasol, dylai fod yn ofynnol iddo gofnodi cyfanswm y gwariant a reoleiddir.

Argymhelliad 11: Dylai fod yn ofynnol i ymgyrchwyr gynnwys rhestr o wybodaeth ar gyfer gwariant cyn cofrestru yn eu ffurflen.

Er mwyn gwella tryloywder a lleihau'r cymhelliad posibl i oedi cofrestru, dylai fod yn ofynnol i ymgyrchwyr cofrestredig sy'n cyflwyno ffurflen gwariant lawn gynnwys rhestr o wybodaeth ar gyfer unrhyw wariant a reoleiddir, gan gynnwys gwariant cyn i ymgyrchydd gofrestru â'r Comisiwn.

Argymhelliad 12: Dylai'r gofynion o ran datganiad ffurflen yn Neddf Refferendwm yr UE 2015 gael eu hymgorffori yn Neddf 2000.

Er mwyn galluogi ymgyrchwyr i lofnodi'r datganiad ffurflen yn gywir pan fyddant wedi derbyn rhodd nas caniateir, dylai'r gofynion o ran datganiad ffurflen yn Neddf Refferendwm yr UE 2015 gael eu hymgorffori yn Neddf 2000 fel eu bod yn gymwys i bob refferendwm a gynhelir yn y dyfodol.

Gorfodi'r rheolau

Argymhelliad 13: Dylai terfyn presennol y Comisiwn o ran dirwy gael ei adolygu a'i gynyddu.

Er mwyn sicrhau bod ein sanctiynau'n ddigon cryf i atal diffyg cydymffurfiaeth, dylai'r terfyn o £20,000 gael ei adolygu a'i gynyddu i lefel a fyddai'n rhwystr addas, gan adlewyrchu lefel y dirwyon sydd ar gael i reoleiddwyr statudol cymesur eraill, a'r gyfundrefn rheoleiddio ariannol.

1 Cyllid a gwariant ymgyrchu

Deddfwriaeth

1.1 Caiff y fframwaith cyfreithiol ar gyfer refferenda a gynhelir o dan ddeddfwriaeth a ddeddfwyd gan Senedd y DU ei amlinellu yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Mae'r ddeddfwriaeth honno yn rhoi rolau penodol i'r Comisiwn Etholiadol mewn refferenda ac yn creu fframwaith ar gyfer cynnal a rheoleiddio refferenda. Fodd bynnag, cyn y gellir cynnal unrhyw refferendwm, mae angen deddfwriaeth ychwanegol benodol, sy'n cwmpasu nid yn unig bwyntiau pwysig megis dyddiad y refferendwm a'i gwestiwn, ond hefyd yr holl reolau manwl ar gyfer cynnal y refferendwm a'r rheolau rheoleiddiol sy'n gymwys.

1.2 Cafodd Bil Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd ei gyflwyno gerbron y Senedd ar 28 Mai 2015 a chafodd Gydsyniad Brenhinol ar 17 Rhagfyr 2015. Fodd bynnag, ni ddaeth darpariaethau sylweddol y Ddeddf i rym ar adeg y Cydsyniad Brenhinol. Ar yr adeg honno, nid oedd yn glir pryd y byddai'r ddeddfwriaeth yn cychwyn gan fod angen cyflwyno, trafod a chymeradwyo sawl darn o is-ddeddfwriaeth gan Senedd y DU cyn i'r refferendwm allu cael ei gynnal. Gwnaethom dynnu sylw at ansicrwydd cynllunio peidio â gwybod dyddiad y refferendwm ac arwyddocâd rheoliadau yr oedd angen eu gwneud o hyd, gan gynnwys dyddiad y bleidlais a dechrau'r cyfnod dynodi, yn ein hadroddiad cyntaf.⁸

Y fframwaith rheoleiddio

Cyllid ymgyrchu

1.3 Rhwng 1 Chwefror 2016 a dyddiad y bleidlais, bu'n ofynnol i ymgyrchwyr cofrestredig gofnodi rhoddion a benthyciadau a oedd dros £500 yr oeddent yn bwriadu eu rhoi tuag at wariant ymgyrchu'r refferendwm. Ni chafodd unrhyw beth a oedd yn £500 neu lai ei gyfrif yn rhodd nac yn fenthyciad at ddiben rheolau'r refferendwm.

1.4 Mae rhoddion yn arian, nwyddau neu wasanaethau a roddir tuag at wariant ymgyrchydd am ddim neu ar delerau anfasnachol. Mae benthyciadau'n cynnwys arian, cyfleusterau credyd, megis cardiau credyd a gorddrafftiau, a gwarannau neu warantau mewn perthynas â rhwymedigaethau'r ymgyrchydd.

1.5 Caiff gwariant refferendwm ei reoleiddio os yw'n ymwneud â gweithgareddau penodol y bwriedir iddynt hyrwyddo neu sicrhau canlyniad

⁸ [Y Comisiwn Etholiadol, *The 2016 EU referendum - Report on the 23 June 2016 referendum on the UK's membership of the European Union \(Medi 2016\)*.](#)

penodol yn y refferendwm, neu sy'n ymwneud â hynny mewn rhyw ffordd arall. Mae'r gwariant hwnnw wedyn yn cyfrif tuag at y trothwy cofrestru o £10,000 a therfyn gwario ymgyrchydd. Mae'n cynnwys eitemau neu wasanaethau a roddir i ymgyrchwyr am ddim neu am ostyngiad anfasnachol o fwy na 10%. Fodd bynnag, nid yw amser gwirfoddolwyr, rhai costau staff, costau teithio, bwyd a llety pobl nad ydynt yn cael eu had-dalu wrth iddynt ymgyrchu, treuliau y mae arian cyhoeddus yn talu amdanynt, na threuliau mewn perthynas â chyhoeddiad mewn papur newydd, cyfnodolyn, a rhai darllediadau yn cyfrif fel gwariant ar refferendwm.

1.6 Amlinellir terfynau gwario refferenda'r DU yn Neddf 2000. Yn achos ymgyrchwyr cofrestredig sydd hefyd yn bleidiau gwleidyddol cofrestredig, pennir lefelau amrywiol yn ôl canran y bleidlais a gafodd y blaid yn yr etholiad cyffredinol Seneddol diwethaf. Cynyddodd deddfwriaeth refferendwm yr UE derfynau gwario Deddf 2000 (a bennwyd yn 2000) er mwyn rhoi cyfrif am chwyddiant.

Cofnodi cyllid a gwariant

1.7 Yn ystod cyfnod y refferendwm (rhwng 15 Ebrill a 23 Mehefin 2016), bu'n rhaid i ymgyrchwyr cofrestredig gyflwyno 'adroddiadau cyn y bleidlais' a oedd yn nodi eu rhoddion a'u benthyciadau a oedd dros £7,500.⁹

1.8 Bu'n rhaid i ymgyrchwyr cofrestredig gyflwyno eu hadroddiad cyntaf cyn y bleidlais ar ddiwedd y cyfnod adrodd y gwnaethant gofrestru ynddo. Roedd angen i'r adroddiad cyntaf gynnwys yr holl roddion a benthyciadau a oedd dros £7,500 yn ôl i ddechrau Deddf Refferendwm yr UE ar 1 Chwefror 2016. Roedd hyn yn cynnwys rhoddion a benthyciadau cyn ac ar ôl i'r ymgyrchydd gofrestru, a chyn ac ar ôl dechrau cyfnod y refferendwm, ar yr amod y cawsant eu rhoi at ddibenion ymgyrchu yn ystod y refferendwm. Gwnaethom gyhoeddi'r ffurflenni cyn y bleidlais a gyflwynwyd ar gyfer pob cyfnod adrodd ar 11 Mai, 26 Mai, 21 Mehefin a 6 Gorffennaf.¹⁰

⁹ Mae'n ofynnol i ymgyrchwyr gofnodi'r holl roddion a benthyciadau a gânt sydd dros £7,500 yn eu hadroddiadau cyn y bleidlais, waeth p'un a dderbynnir bod y fath arian gan roddwr / benthyciwr a ganiateir. Adroddir am roddion a dderbynnir sydd dros £7,500 ar ôl y refferendwm. Nid oedd hyn yn gymwys i ymgyrchwyr cofrestredig a oedd hefyd yn bleidiau gwleidyddol.

¹⁰ [Mae manylion adroddiadau cyn y bleidlais ymgyrchwyr](#) ar gael ar ein gwefan.


Dyddiadau adrodd cyn y bleidlais



1.9 Ar ôl y refferendwm, bu'n ofynnol i ymgyrchwyr cofrestredig gyflwyno ffurflen gwariant a oedd yn cynnwys manylion yr holl roddion a benthyciadau a dderbyniwyd a oedd dros £7,500 ynghyd â manylion rhoddion a benthyciadau nas caniatwyd. Roedd hefyd yn ofynnol iddynt gofnodi cyfanswm gwerth yr holl roddion a benthyciadau a dderbyniwyd a oedd rhwng £500 a £7,500.

1.10 Cyflwynwyd y ffurflenni ar ôl y refferendwm erbyn 23 Medi 2016 ar gyfer ymgyrchwyr a wariodd £250,000 neu lai a 23 Rhagfyr 2016 ar gyfer y rheini a wariodd dros £250,000. Gwnaethom gyhoeddi'r ffurflenni ar 29 Tachwedd 2016 a 24 Chwefror 2017.¹¹

Dyddiadau adrodd ar ôl y refferendwm



1.11 Gofynnwyd i ymgyrchwyr a oedd yn bleidiau gwleidyddol cofrestredig roi manylion yr hyn a wariwyd ganddynt ar ymgyrchu yn ystod cyfnod y refferendwm (15 Ebrill i 23 Mehefin 2016); fodd bynnag, nid oedd yn ofynnol iddynt nodi rhoddion na benthyciadau tuag at y gwariant hwnnw yn ystod neu ar ôl y refferendwm (oni bai eu bod yn bleidiau llai). Y rheswm dros hyn yw ei bod eisoes yn ofynnol i bleidiau gwleidyddol cofrestredig gyflwyno adroddiadau chwarterol sy'n nodi ffynonellau cyllid, a hynny o dan Ddeddf 2000. Er nad yw adroddiadau chwarterol pleidiau yn cynnwys manylion

¹¹ [Mae manylion ffurflenni ar ôl y bleidlais ymgyrchwyr ar gael ar ein gwefan.](#)

penodol ynghylch pa roddion neu fenthyciadau a ddefnyddiwyd ar gyfer ymgyrch refferendwm yr UE, mae'r rheolau rheoleiddiol cyffredinol ar bleidiau gwleidyddol yn sicrhau bod rheolaethau ar waith ar gyfer ffynonellau cyllid a'u tryloywder.¹²

Ffeithiau a ffigurau allweddol

1.12 Yng ngweddill y bennod hon cyflwynir rhai ffeithiau a ffigurau allweddol ynghylch yr arian a dderbyniodd ymgyrchwyr i ariannu eu hymgyrchoedd a'u gwariant ar ymgyrchu.¹³

1.13 Mae rhagor o wybodaeth am gyllid a gwariant ymgyrchwyr ar gael ar ein gwefan. Mae ein gwefan hefyd yn cynnwys siartiau sy'n galluogi defnyddwyr i ddadansoddi'r data a roddwyd gan ymgyrchwyr i'r Comisiwn.

Crynodeb

1.14 Nododd ymgyrchwyr cofrestredig eu bod wedi gwario cyfanswm o £32,642,158 yn ymgyrchu yn refferendwm yr UE, a nodwyd bod ymgyrchwyr cofrestredig, ag eithrio pleidiau gwleidyddol wedi derbyn gwerth £30,714,106 mewn rhoddion tuag at eu hymgyrchoedd ar gyfer y refferendwm.

¹² [Mae gwybodaeth am y rhoddion a'r benthyciadau a wnaed i bleidiau gwleidyddol](#) ar gael ar ein gwefan.

¹³ Daw'r data yn yr adroddiad hwn o'r ffurflenni statudol a gyflwynwyd gan ymgyrchwyr ar 23 Medi 2016 a 23 Rhagfyr 2016. [Bydd unrhyw newidiadau yn y data ar gyllid ymgyrchu sy'n deillio o'n gwaith ar gydymffurfiaeth ar gael ar ein gwefan.](#)

Tabl 1: Crynodeb o roddion a benthyciadau ymgyrchwyr cofrestredig

Ymgyrchydd¹⁴	Terfyn	Gwariant	Rhoddion¹⁵
The In Campaign Ltd	£7,000,000	£6,767,584	£12,119,050
Vote Leave Ltd	£7,000,000	£6,742,466	£9,858,149
Y Blaid Lafur	£5,500,000	£4,859,243	-
Plaid Annibyniaeth y DU	£4,000,000	£1,354,393	-
Y Democratiaid Rhyddfrydol	£3,000,000	£2,223,901	-
Plaid Unoliaethwyr Democrataidd	£700,000	£425,622	-
Y Blaid Werdd	£700,000	£48,815	-
Plaid Cymru	£700,000	£27,495	-
Plaid Genedlaethol yr Alban	£700,000	£90,830	-
Cyfansymiau cyfunol 58 o ymgyrchwyr cofrestredig eraill ¹⁶	£40,600,000	£10,101,809	£8,736,907
Cyfanswm	£69,900,000	£32,642,158	£30,714,106

¹⁴ Ni wnaeth y Blaid Geidwadol ac Unoliaethol gofrestru fel ymgyrchydd yn y refferendwm. Dim ond gwario hyd at y trothwy cofrestru o £10,000 y gallai ymgyrchwyr anghofrestredig ei wneud.

¹⁵ Nid oedd yn ofynnol i bleidiau gwleidyddol cofrestredig gofnodi rhoddion a benthyciadau tuag at eu gwariant ar ymgyrchu yn y refferendwm. Cyfansymiau heb gynnwys rhoddion rhwng £500 a £7,500.


¹⁶ Cyflwynodd 48 o ymgyrchwyr eraill naill ai 'dim' neu ddatganiadau gwario a oedd o dan y trothwy cofrestru, gan gynnwys 10 o bleidiau gwleidyddol eraill. Methodd saith ymgyrchydd â chyflwyno ffurflenni ac maent yn destun camau gorfodi.

Cyllid ymgyrchu

Siart 1: Cyfanswm y rhoddion i bob ymgyrchydd (heb gynnwys pleidiau gwleidyddol)

1.15 Mae'r siart isod yn nodi cyfanswm y rhoddion a dderbyniwyd gan ymgyrchwyr 'Aros' a 'Gadael' ar ôl iddynt gofrestru â'r Comisiwn.

1.16 O'r cyfanswm rhoddion a gofnodwyd, sef £30,714,106, mae'r rhoddion a gofnodwyd i'r sawl a gofrestrodd i ymgyrchu dros y canlyniad 'Gadael' yn £15,854,432 ac ar gyfer y canlyniad 'Aros' mae'n £14,859,674; mae hyn yn 52% ac yn 48% o gyfanswm y rhoddion a gofnodwyd yn y drefn honno.



Cyfanswm y benthyciadau i bob ymgyrchydd (heb gynnwys pleidiau gwleidyddol)


1.17 Cofnododd ymgyrchwyr refferendwm yr UE gyfanswm benthyciadau o £6,071,940; £43,940 i ymgyrchwyr 'Aros' a £6,028,000 i ymgyrchwyr 'Gadael'. Roedd benthyciadau'n cynrychioli cyfanswm o 20% o incwm ymgyrchwyr.

1.18 Mae'r gwahaniaeth sylweddol rhwng y benthyciadau a gofnodwyd gan ymgyrchwyr 'Aros' a 'Gadael' yn deillio o bedwar benthyciad gan Mr Arron Banks i Leave.EU Group Ltd, sef cyfanswm o £6m.

Siart 2: Rhoddion yn ôl y math o roddwr (heb gynnwys pleidiau gwleidyddol)

1.19 Mae'r siart isod yn dangos y mathau o roddwr a symiau a nifer y rhoddion a gofnodwyd a dderbyniwyd gan ymgyrchwyr ar y ddwy ochr.

1.20 Rhoddion gan unigolion oedd y rhan fwyaf o'r rhoddion a gofnodwyd gan ymgyrchwyr ar y ddwy ochr i'r ddadl. Cwmnïau oedd yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r rhoddion eraill a gofnodwyd gan y ddwy ochr.




Gwariant ar ymgyrchu

Mae'r adran hon yn cynnwys gwybodaeth am wariant pleidiau gwleidyddol a gofrestrodd i ymgyrchu yn refferendwm yr UE. Fodd bynnag, nid oedd yn ofynnol i'r pleidiau gwleidyddol hyn nodi rhoddion na benthyciadau tuag at y gwariant hwnnw yn ystod neu ar ôl y refferendwm (oni bai eu bod yn bleidiau llai).

Siart 3: Cyfanswm gwariant ymgyrchwyr yn erbyn y terfynau cyfunol


1.21 Mae'r siart isod yn nodi cyfanswm y gwariant a gofnodwyd gan ymgyrchwyr 'Aros' a 'Gadael' yn ystod cyfnod y refferendwm, sef rhwng 15 Ebrill a 23 Mehefin 2016 (y cyfnod yr oedd terfynau gwariant yn berthnasol) yn erbyn cyfanswm terfynau gwario unigol cyfunol pawb a gofrestrodd i ymgyrchu dros y naill ganlyniad a'r llall (a ddangosir gan y llinell goch).

1.22 O gyfanswm gwariant a gofnodwyd o £32,642,158, roedd gwahaniaeth o £5,977,019 rhwng gwariant ymgyrchwyr 'Aros' a 'Gadael'. Nododd pawb a roddodd fanylion eu gwariant ar gyfer y naill ochr o'r ddadl a'r llall eu bod wedi gwario 47% o gyfanswm eu terfynau unigol cyfunol.



Siart 4: Gwariant gan ymgyrchwyr arweiniol dynodedig a phleidiau gwleidyddol

1.23 Mae'r siart isod yn nodi'r gwariant a gofnodwyd gan y ddau ymgyrchydd arweiniol dynodedig a'r pleidiau gwleidyddol a gofrestrodd o blaid y naill ganlyniad a'r llall.



2 Rheoleiddio a gorfodi

2.1 Nod gweithgarwch rheoleiddio'r Comisiwn yn ystod ymgyrch y refferendwm oedd atal unrhyw achos o dorri'r rheolau ar wariant yn ystod yr ymgyrch. Er mwyn gwneud hyn defnyddiwyd amrywiaeth o adnoddau rheoleiddio, gan gynnwys darparu gwasanaeth cynghori i ymgyrchwyr a'r cyhoedd, a monitro'r ymgyrchoedd er mwyn nodi gweithgarwch a allai dorri'r rheolau ac ymwneud ag ef. Lle bo angen, gwnaethom hefyd gymryd camau gorfodi yn ystod yr ymgyrch er mwyn cadarnhau a dorrwyd y rheolau.

2.2 Fel y nodwyd yn ein hadroddiad cyntaf ar refferendwm yr UE,¹⁷ lle gwariodd sefydliadau y tu allan i'r DU arian yn y DU ar ymgyrchu, cwmpaswyd eu gwariant gan y rheolau. Fodd bynnag, ni allai'r sefydliadau hyn gofrestru fel ymgyrchydd ac felly cyfyngwyd ar eu gwariant i £10,000, sef y trothwy cofrestru. Gwnaethom weithio gyda sawl sefydliad o'r tu allan i'r DU er mwyn sicrhau bod eu gwariant ar ymgyrchu yn aros o dan y trothwy hwn, neu i fodloni ein hunain nad oedd gwariant blaenorol wedi ei dorri.

2.3 Mae rheolau Deddf 2000 ond yn gymwys i unigolion neu ymddygiad o fewn y DU – a Gibraltar ar gyfer y refferendwm hwn. O ganlyniad ni allem ddefnyddio ein pwerau sancsiynu sifil ar unigolion nac ymddygiad a ddigwyddodd y tu hwnt i'r DU – a Gibraltar. Fodd bynnag, ar yr adegau prin hynny pan ddaeth i'n sylw, gwelsom fod y sefydliadau hynny o'r tu allan i'r DU y gwnaethom weithio gyda nhw yn cydweithredu ar y cyfan ac yn barod i gymryd camau i fodloni'r rheolau. Hyd yn oed lle nad oeddent yn gymwys iddynt, roedd sefydliadau'n barod i lynu wrth ysbryd y rheolau.

2.4 Mae ein gweithgarwch rheoleiddio'n parhau. Cafodd y set olaf o ffurflenni gwariant ar y refferendwm, ar gyfer yr ymgyrchwyr hynny a wariodd dros £250,000, eu cyflwyno ar 23 Rhagfyr 2016. Rydym yn parhau i ddadansoddi'r rhain ac, os nodir unrhyw faterion, byddwn yn mynd i'r afael â nhw yn unol â'n Polisi Gorfodi.¹⁸ Rydym hefyd yn parhau i ddelio â nifer o achosion gorfodi sy'n deillio o ffurflenni gwariant ymgyrchwyr. Mae'r adroddiad hwn ond yn cyfeirio at weithgarwch rheoleiddio sydd wedi cael ei gwblhau. Ar gyfer materion sy'n mynd rhagddynt, cyhoeddir canlyniad ein holl ymchwiliadau ar ein gwefan.¹⁹

2.5 Rydym yn hyderus bod ein gweithgarwch rheoleiddio yn ystod yr ymgyrch wedi atal unrhyw achos o dorri'r rheolau, er i ni ganfod, a sancsiynu, troseddau ac mae ein gwaith ymchwilio yn dal i fynd rhagddo. Gwnaethom hyn drwy weithio gydag ymgyrchwyr a phobl a sefydliadau eraill â diddordeb er mwyn sicrhau eu bod yn deall y rheolau gwariant a sut i'w rhoi ar waith mewn perthynas â'u gweithgareddau arfaethedig. Mae'r adrannau isod yn rhoi

¹⁷ [Y Comisiwn Etholiadol, *The 2016 EU referendum - Report on the 23 June 2016 referendum on the UK's membership of the European Union* \(Medi 2016\).](#)

¹⁸ [Y Comisiwn Etholiadol, *Polisi Gorfodi* \(Daeth i rym 5 Ebrill 2016\).](#)

¹⁹ Cyhoeddir [gwybodaeth am ganlyniad ein holl ymchwiliadau](#) ar ein gwefan.

manylion y gweithgarwch rheoleiddio hwn yn ystod yr ymgyrch a, lle y'i cwblhawyd, ar ei hôl.

Cyngor

2.6 Yn ystod ymgyrch y refferendwm gwnaethom gynnig gwasanaeth cyngori, gan ateb ymholiadau dros y ffôn, drwy e-bost neu drwy lythyr. Cafwyd ymholiadau gan y cyhoedd ac ymgyrchwyr yn cwmpasu amrywiaeth o faterion.

2.7 Cawsom 454 o gwynion gan y cyhoedd am ddeunydd ymgyrchu a gyhoeddwyd gan y ddau ymgyrchydd arweiniol dynodedig. O'r rhain, roedd 413 yn ymwneud â deunydd Vote Leave Ltd ac roedd 41 yn ymwneud â deunydd The In Campaign Ltd. Cododd nifer sylweddol o'r rhain bryderon am gywirdeb y wybodaeth yn y deunydd ymgyrchu hwn. I ateb y rhain gwnaethom egluro nad ydym yn rheoleiddio cynnwys na dyluniad deunydd ymgyrchu refferendwm. Yn y DU, yn ddarostyngedig i derfynau'r gyfraith ar ddifeni, trefn gyhoeddus ac ati, nid yw cynnwys deunydd refferendwm yn gyfyngedig. Pleidleiswyr sydd i benderfynu pa bwys i'w roi ar y deunydd a gyflwynir. Fodd bynnag, o ystyried y cwestiynau a godwyd am ymgyrchu yn ystod cyfnod y refferendwm ac ynghylch cywirdeb a gwirionedd deunydd ymgyrchu, roeddem o'r farn y byddai'n fuddiol ymchwilio i'r materion ymhellach. Trafodwn hyn ym mhennod 3.

2.8 Roedd y rhan fwyaf o'r ymholiadau newydd neu gymhleth yn ymwneud â'r diffiniad o 'wariant ar y refferendwm' ac yn ystyried a oedd costau penodol yn dod o dan y rheolau. Roedd hyn yn cynnwys cyngor a roddwyd i ymgyrchwyr ynghylch sut i benderfynu a oedd cost benodol yn un y dylid ei chofnodi fel gwariant ar y refferendwm, a sut i gofnodi costau yr aed iddynt ar faterion gweinyddol a gorbenion. Roedd hefyd yn cynnwys cyngor i'r rheini nad oeddent yn ymgyrchwyr ynghylch gweithgareddau nad oeddent yn gyfystyr ag ymgyrchu yn y refferendwm, er eu bod yn gysylltiedig â hynny.

Ymyriadau rheoleiddiol yn ystod yr ymgyrch

2.9 Yn ystod ymgyrch y refferendwm, ac yn syth ar ei hôl, gwnaethom gynnal amrywiaeth o ymyriadau rheoleiddiol a nod pob un oedd sicrhau bod ymgyrchwyr yn cydymffurfio â'r rheolau mor gyflym â phosibl.

2.10 Defnyddiwyd ein pwerau statudol gan amlaf mewn perthynas ag ymgyrchwyr nad oeddent wedi cyflwyno adroddiadau ar roddion yn ystod yr ymgyrch – gan olygu na fyddai pleidleiswyr efallai'n gallu gweld o ble y daeth eu harian – a deunydd refferendwm nad oedd yn cynnwys manylion cyswllt angenrheidiol ei hyrwyddwr (sef 'argraffnod').

2.11 Mae'r tabl isod yn rhoi enghreifftiau o'r prif fathau o ymyriadau rheoleiddiol a gafwyd yn ystod yr ymgyrch.

Tabl 2: Crynodeb o'r prif ymyriadau rheoleiddiol

Mater	Canlyniad
Adroddiadau'r Pwyllgor Dethol Seneddol a gyhoeddwyd yn ystod yr ymgyrch a oedd yn sôn am ganlyniadau canlyniad y refferendwm.	Yn dilyn trafodaethau â Chlerc Tŷ'r Cyffredin roeddem yn fodlon bod yr adroddiadau yn dod o dan fraint seneddol.
Trafodaethau â'r papurau newydd ynghylch trothwy gwariant cofrestru fel ymgyrchydd.	<p>Cysylltodd papur newydd The Sun â'r Comisiwn am gyngor ar yr hyn a oedd yn gyfystyr â deunydd refferendwm a'r trothwy ar gyfer cofrestru fel ymgyrchydd. I ddechrau daeth i'r casgliad nad oedd angen iddo gofrestru. Fodd bynnag, ar ôl i ni egluro'r rheolau'n fanylach a thrafod natur gweithgarwch arfaethedig y papur, cofrestrodd The Sun fel ymgyrchydd.</p> <p>Cysylltodd papur newydd arall â'r Comisiwn am yr un peth. Yn dilyn trafodaethau daeth yn glir na fyddai ei wariant ar ymgyrchu yn y refferendwm yn fwy na £10,000 ac na fyddai angen cofrestru.</p>
Daeth y Comisiwn yn ymwybodol o bryderon bod Vote Leave yn dosbarthu taflen nad oedd yn cynnwys argraffnod.	<p>Sefydlwyd gennym fod y taflenni'n cael eu dosbarthu gan Post Brenhinol cyn i gyfnod y refferendwm ddechrau, pan nad oedd angen argraffnod. Ymddangosodd y gallai rhai fod wedi cael eu hailddosbarthu gan wirfoddolwyr yn ddiweddarach. Fodd bynnag, ar ôl dod ar draws achos arall, gwnaethom ailedrych ar y mater. Nodwyd bod Vote Leave Ltd wedi cadw taflenni dros ben yn hytrach na'u dinistrio.</p> <p>Roedd nifer fechan o daflenni wedi'u cymryd o'u man storio a'u dosbarthu yn ystod cyfnod y refferendwm. Roeddem yn fodlon nad oedd y camgymeriad hwn yn fwriadol ac ni chymerwyd unrhyw gamau pellach unwaith y gwnaeth Vote Leave Ltd gadarnhau ei fod wedi dinistrio'r holl daflenni oedd ar ôl.</p>
Cyhoeddodd Llysgenhadaeth Hwngari hysbyseb papur newydd yn annog pobl i bleidleisio i 'Aros'.	Nid yw Llysgenhadaeth Hwngari yn gorfod cydymffurfio â'r rheolau yn Neddf 2000. Fodd bynnag, gwnaethom ysgrifennu at y Llysgenhadaeth yn gofyn iddi barchu ysbryd y rheolau hynny. Ymatebodd y Llysgenhadaeth gan egluro nad oedd yn bwriadu ymwneud ag ymgyrch y refferendwm ragor.
Daeth y Comisiwn yn ymwybodol o gyngerdd a oedd ar y gweill, o'r enw	Gwnaethom gysylltu â Leave.EU, a oedd yn hyrwyddo'r gyngerdd, er mwyn gweld a oedd hefyd yn ei hariannu. Dywedodd Leave.EU nad

Mater	Canlyniad
<p>'Bpop', a oedd yn ymddangos fel petai'n gyfystyr ag ymgyrchu yn y refferendwm. Nid oedd yn glir pa ymgyrchydd a oedd yn ariannu'r digwyddiad na ph'un a oedd wedi cofrestru â'r Comisiwn.</p>	<p>oedd yn gwneud hynny. Yna gwnaethom gysylltu â'r cwmni masnachol a oedd yn rheoli'r gyngerdd. Eglurodd y cwmni hwnnw fod ganddo gontract â Rock Service Limited i reoli'r gyngerdd. Hefyd, eglurodd y cwmni fod mwy na £10,000 wedi'i wario hyd yma. Nid ymatebodd Rock Services Ltd i'n cais am wybodaeth er mwyn pennu ai'r cwmni oedd yr ymgyrchydd ac, os felly, i drafod cofrestru. Fodd bynnag, cofrestrodd Arron Banks wedyn fel ymgyrchydd unigol yn ei rinwedd bersonol ei hun. Deallwyd mai'r rheswm dros hyn oedd oherwydd mai yntau oedd yn ariannu'r gyngerdd. Gwnaethom ysgrifennu at Mr Banks i ofyn beth roedd eisoes wedi'i wario ar y gyngerdd a ph'un a oedd yn gweithio gydag unrhyw ymgyrchydd arall. Gan na chafwyd unrhyw ymateb a bod y gyngerdd i fod digwydd ymhen ychydig ddyddiau, gwnaethom egluro i Mr Banks y byddem yn ei orfodi i ymateb drwy hysbysiad datgelu o dan Atodlen 19B i Ddeddf 2000. Yna cyhoeddodd Mr Banks a Leave.EU ddatganiad i'r wasg yn canslo'r gyngerdd. Mae ein hymateb ar gael ar ein gwefan.²⁰</p>
<p>Dosbarthodd JD Wetherspoon PLC ddeunydd ymgyrchu o blaid gadael a oedd yn defnyddio matiau cwrw yn ei dafarndai a chyfnodolyn JD Wetherspoon PLC. Nid oedd y matiau cwrw yn cynnwys argraffnod ac nid oedd JD Wetherspoon PLC wedi cofrestru fel ymgyrchydd.</p>	<p>Gwnaethom gysylltu â JD Wetherspoon PLC a'i Brif Swyddog Gweithredol Tim Martin a gytunodd i roi'r gorau i ddefnyddio'r matiau cwrw am nad oeddent yn cynnwys argraffnod. Gwnaethom hefyd ofyn am y gwariant ar y deunydd ymgyrchu a ph'un a oedd JD Wetherspoon PLC yn bwriadu cofrestru fel ymgyrchydd. Nododd nad oedd y gwariant ar y cam hwnnw wedi mynd dros £10,000 a chofrestrodd JD Wetherspoon PLC fel ymgyrchydd.</p>
<p>Cynhaliodd yr LSE gyfres o ddiwyddiadau'n ymwneud â'r refferendwm.</p>	<p>Yn dilyn trafodaethau â'r LSE, gwnaethom benderfynu bod rhai digwyddiadau'n cyfrif fel gweithgarwch ymgyrchu. Fodd bynnag, roedd cost y digwyddiadau (a roddwyd mewn manylder i'r Comisiwn) o dan y trothwy cofrestru o £10,000.</p>
<p>Dileu nifer o ymgyrchwyr cofrestredig.</p>	<p>Yn gynnar yn yr ymgyrch, gwnaethom gofrestru nifer o gymdeithasau anghorfforedig fel</p>

²⁰ [Electoral Commission response to Bpop live cancellation \(14 Mehefin 2016\).](#)

Mater	Canlyniad
	ymgyrchwyr, ac roedd llawer ohonynt yn gysylltiedig â mudiad 'GO'. Yn dilyn cais aflwyddiannus GO Movement Ltd i gael ei dynodi'n ymgyrchydd arweiniol, daeth rhai o'r cymdeithasau hyn i ben. Gan nad oeddent yn bodloni'r diffiniad o gymdeithas anghorfforedig mwyach at ddibenion bod yn ymgyrchydd yn y refferendwm, gwnaethom eu dileu o'r gofrestr ymgyrchwyr.
Cynhaliodd Fforwm Economaidd y Byd ddigwyddiad lle disgwyliwyd i Mr Cameron siarad.	Fel endid y tu allan i'r DU nid oedd Fforwm Economaidd y Byd yn gymwys i gofrestru fel ymgyrchydd. Cydweithredodd â'r Comisiwn er mwyn sicrhau bod ei wariant ar y digwyddiad o fewn y trothwy cofrestru.
Y Gronfa Ariannol Ryngwladol (IMF)	Gwnaethom gysylltu â'r IMF er mwyn sicrhau ei bod yn deall y rheolau ynghylch ymgyrchu yn y refferendwm. Cadarnhaodd fod ei gweithgarwch presennol yn seiliedig ar ei gweithgareddau arferol.
Y Sefydliad Cydweithredu a Datblygu Economaidd (OECD)	Gwnaethom gysylltu â'r OECD er mwyn sicrhau ei fod yn deall y rheolau ynghylch ymgyrchu yn y refferendwm. Cadarnhaodd fod ei weithgarwch presennol yn seiliedig ar ei weithgareddau arferol.
Cysylltu â Banc Lloegr ynglŷn â'i weithgareddau cyn y refferendwm	Gwnaethom gysylltu â Banc Lloegr er mwyn sicrhau ei fod yn deall y rheolau, yn arbennig gweithredu a chymhwysio adran 125 at y Banc. Cadarnhaodd y Banc ei fod yn deall y rheolau a chytunodd, er nad oedd adran 125 yn ymwneud yn benodol â'r Banc, y byddai'n arsylwi ar y cyfnod neilltuo cyn refferendwm yn wirfoddol yn ysbryd canllawiau a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet ar 26 Mai 2016. ²¹
Cynhaliodd Ryanair gynhadledd i'r wasg lle'r oedd George Osborne AS, Vince Cable ac Ed Balls yn bresennol i hyrwyddo'r ymgyrch 'Aros'	Cawsom gostau'r digwyddiad gan Ryanair ac roeddem yn fodlon eu bod o dan y trothwy cofrestru. Hefyd, cofrestrodd un o gwmnïau Ryanair fel ymgyrchydd at ddiben unrhyw ymgyrchu pellach. Fodd bynnag, ni wnaeth yr ymgyrchydd wario mwy ar ymgyrchu. ²²
Adroddiadau coll, hwyr neu anghywir ar roddion yn	Gwnaethom ymchwilio i 13 o ymgyrchwyr mewn perthynas ag adroddiadau coll, hwyr neu

²¹ [Ceir cofnod o'r ohebiaeth rhwng Banc Lloegr a'r Comisiwn](#) ar ein gwefan.

²² [Electoral Commission statement on assessment of Ryanair spending on EU Referendum campaigning \(10 Mehefin 2016\).](#)

Mater	Canlyniad
ystod yr ymgyrch	anghywir ar roddion yn ystod ymgyrch y refferendwm. ²³
Argraffnodau ar goll o ddeunydd refferendwm	Gwnaethom ymchwilio i bedwar ymgyrchydd am beri i ddeunydd refferendwm gael ei gyhoeddi heb yr argraffnod angenrheidiol. ²⁴
Ymchwiliadau i weld p'un a oedd angen i endidau gofrestru fel ymgyrchwyr	Gwnaethom ymchwilio i ddau endid er mwyn pennu a oeddent wedi gwario mwy na'r trothwy cofrestru heb iddynt gofrestru. ²⁵
Ymchwiliadau i Vote Leave Ltd	Gwnaethom gynnal dau ymchwiliad i Vote Leave Ltd. Roedd un yn ymwneud â dychwelyd rhodd nas caniatwyd yn hwyr ac roedd y llall yn ymwneud â thalu traul ymgyrch ar ôl y terfyn amser statudol ar gyfer taliadau o'r fath. ²⁶

²³ [Bydd gwybodaeth am ganlyniad ein hymchwiliadau i adroddiadau coll, hwyr neu anghywir ar roddion](#) ar ein gwefan.

²⁴ [Bydd gwybodaeth am ganlyniad ein hymchwiliadau i argraffnodau](#) ar ein gwefan.

²⁵ [Bydd gwybodaeth am ganlyniad ein hymchwiliadau i wario mwy na'r trothwy cofrestru](#) ar ein gwefan.

²⁶ [Bydd gwybodaeth am ganlyniad ein hymchwiliadau i Vote Leave Ltd](#) ar ein gwefan.

3 Gwersi ar gyfer refferenda yn y dyfodol

3.1 Dangosodd ein hymchwil i ymgyrchwyr ar ôl y refferendwm eu bod, ar y cyfan, o'r farn bod y rheolau gwariant yn syml o ran cydymffurfiaeth a bod cefnogaeth eang i dryloywder.²⁷

3.2 Mae'r bennod hon yn edrych ar brofiadau'r rheini a ymgyrchodd yn ystod refferendwm yr UE ac mae'n ymdrin â materion rheoleiddiol a gododd o'r wybodaeth a roddwyd gan ymgyrchwyr yn eu ffurflenni gwariant a rhoddion ar gyfer y refferendwm. Lle bo'n briodol, argymhellwn y dylai rhai newidiadau gael eu hymgorffori yn Neddf 2000 fel eu bod yn gymwys i bob refferendwm a gynhelir yn y dyfodol.

3.3 Mae'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn adeiladu ar y rheini a wnaethom yn dilyn refferenda 2011 a refferendwm 2014 ar annibyniaeth yn yr Alban,²⁸ yn ogystal â'n hadolygiad rheoleiddiol o gyfreithiau cyllid pleidiau ac etholiadau'r DU yn 2013.²⁹ Mewn nifer o feysydd, ailadroddwn ein barn a gyhoeddwyd yn flaenorol ynghylch y fframwaith rheoleiddio cyfan ac chysylltu â refferendwm yr UE.

Cyllid ymgyrchu

Rheoleiddio benthyciadau

3.4 Fel yn achos refferendwm 2011 ar systemau pleidleisio seneddol, roedd deddfwriaeth refferendwm yr UE yn cynnwys rheolaethau penodol ar fenthyciadau a oedd ond yn gymwys i'r refferendwm hwnnw.

3.5 Cofnododd ymgyrchwyr refferendwm yr UE gyfanswm benthyciadau o £6,071,940; £43,940 i ymgyrchwyr 'Aros' a £6,028,000 i ymgyrchwyr 'Gadael'. O'r cyfanswm incwm a gofnodwyd, sef £36,786,046, roedd benthyciadau felly'n cyfrif am 20%. .

3.6 Er y gallai'r symiau hyn ymddangos yn isel o'u hystyried yng nghydestun cyfanswm rhoddion neu wariant ymgyrch refferendwm, heb reolaethau ar fenthyciadau ni fyddai unrhyw dryloywder o ran y ffynhonnell hon o gyllid ymgyrch. Hefyd, mae'n bosibl y gallai absenoldeb rheolaethau ar fenthyciadau arwain at newid mewn cyllid o roddion wedi'u rheoleiddio i fenthyciadau heb eu rheoleiddio na'u cofnodi.

²⁷ [Research among permitted participants at the EU referendum - Justin Fisher \(Brunel University London\) & Bettina Rottweiler \(Brunel University London\) \(25 Awst 2016\).](#)

²⁸ [Mae adroddiadau blaenorol y Comisiwn Etholiadol ar refferenda](#) ar gael ar ein gwefan.

²⁹ [Y Comisiwn Etholiadol, A regulatory review of the UK's party and election finance laws - Recommendations for change \(Mehfin 2013\).](#)

3.7 Nid yw Deddf 2000 yn darparu unrhyw reolaethau na gofynion adrodd o ran benthyciadau a drefnir i ymgyrchu mewn refferenda. Mae absenoldeb rheolaethau o'r fath yn arwain at fwlch sylweddol o ran rheoleiddio cyllid ymgyrch yn refferenda Deddf 2000 ac mae'n anghyson â rheoleiddio mathau eraill o ymgyrchwyr.

3.8 Mae gan Lywodraeth y DU y pŵer i gymhwyso rheolaethau ar fenthyciadau i holl refferenda Deddf 2000 drwy is-ddeddfwriaeth ond, hyd yn hyn, nid yw wedi gwneud hynny.

Argymhelliad 1: Dylai rheolaethau ar fenthyciadau gael eu hymgorffori yn Neddf 2000.

Mae absenoldeb rheolaethau ar fenthyciadau yn rheolau refferendwm Deddf 2000 yn fwlch sylweddol o ran rheoleiddio refferenda. Dylai Llywodraeth y DU gyflwyno'r is-ddeddfwriaeth berthnasol er mwyn cynnwys rheolaethau ar fenthyciadau ym mhob refferendwm a gynhelir yn y dyfodol o dan fframwaith Deddf 2000.

Rhoddwyr a benthycwyr a ganiateir

Categoriâu unigolion a chyrrff sy'n gymwys i gofrestru

3.9 Cyflwynodd Deddf Tryloywder Lobio, Ymgyrchwyr Nad Ydynt yn Bleidiau a Gweinyddu Undebau Llafur 2014 fathau newydd o sefydliad sy'n gymwys i gofrestru fel ymgyrchydd nad yw'n blaid mewn etholiad. Tan y newid hwn, roedd y rhestr o unigolion a chyrrff a oedd yn gymwys i gofrestru fel ymgyrchydd mewn refferendwm a rhoi i ymgyrchwyr eraill yn cyfateb i'r rhestr o ymgyrchwyr cofrestredig cymwys nad ydynt yn bleidiau o dan Ddeddf 2000.³⁰ Yn dilyn y newid hwn, gwnaethom argymhell y dylai'r ddeddfwriaeth ar gyfer refferenda yn y dyfodol ailgysoni'r rheolau ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau ac ymgyrchwyr mewn refferendwm.

3.10 Ymdriniodd y ddeddfwriaeth ar gyfer refferendwm yr UE â'r argymhelliad hwn drwy ymestyn y categorïau o unigolion a chyrrff sy'n gymwys i gofrestru a gwneud rhoddion. Ar gyfer refferendwm yr UE, cofrestrodd un corff Siarter Frenhinol a phedwar sefydliad corfforedig elusennol i ymgyrchu o dan y categorïau newydd oedd ar gael.³¹ Mae gwariant a rhoddion yr ymgyrchwyr hyn ar gael ar ein gwefan.³²

3.11 Fel Sefydliadau Anghorfforedig Elusennol, caiff Sefydliadau Anghorfforedig Elusennol yn yr Alban, cyrrff a gorfforwyd gan Siarter Frenhinol a Phartneriaethau yn yr Alban gofrestru fel ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau

³⁰ Roedd Deddf Tryloywder Lobio, Ymgyrchwyr Nad Ydynt yn Bleidiau a Gweinyddu Undebau Llafur 2014 yn cynnwys Sefydliadau Anghorfforedig Elusennol, Sefydliadau Anghorfforedig Elusennol yn yr Alban, cyrrff a gorfforwyd gan Siarter Frenhinol a Phartneriaethau yn yr Alban sy'n cynnal busnes yn y DU.

³¹ Cyrrff Siarter Frenhinol: Corfforaeth Dinas Llundain. Sefydliadau anghorfforedig elusennol: Clientearth, Universities UK, Social Market Foundation, Federal Trust for Education and Research.

³² [Mae gwybodaeth am y cyllid a'r gwariant a gofnodwyd ar gyfer ymgyrch refferendwm yr UE ar gael ar ein gwefan.](#)

mewn etholiadau, ac o ystyried eu corffori yng nghyfundrefn reoleiddio refferendwm yr UE, argymhellwn y dylai'r rheolaethau o ran cofrestru ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau ac ymgyrchwyr refferendwm fod yn gydnaws ar gyfer refferenda yn y dyfodol.

Cyfyngu ar roddion i bleidiau gwleidyddol gan roddwyr ychwanegol a ganiateir o dan Ddeddf Refferendwm yr UE

3.12 Fodd bynnag, un o oblygiadau newid rheolau ymgyrchwyr refferendwm, heb fod newid tebyg i'r categorïau o roddwyr a all wneud rhoddion i bleidiau gwleidyddol. Mae'n golygu gallai grŵp ehangach o roddwyr wneud rhoddion a benthyg arian i'r pleidiau gwleidyddol a gofrestrodd i ymgyrchu mewn refferendwm nag a gaiff ariannu pleidiau sy'n ymgyrchu mewn etholiadau. O dan Ddeddf 2000, mae'r rhoddwyr hyn yn ffynonellau o gyllid etholiad nas caniateir.

3.13 Cyfyngodd Deddf Refferendwm yr UE ar y risg hon drwy beidio â gadael i bleidiau gwleidyddol dderbyn rhoddion o'r ffynonellau hyn uwchlaw'r hyn y gallent ei wario ar ymgyrchu yn y refferendwm, na chynyddu gwerth benthygiad refferendwm.

3.14 Nid ydym wedi cael unrhyw adborth gan y pleidiau gwleidyddol a gofrestrodd i ymgyrchu yn refferendwm yr UE fod y ddarpariaeth dechnegol hon wedi peri anawsterau gweinyddol sylweddol iddynt. Yn ymarferol, ni chafwyd unrhyw roddion o'r categorïau newydd o roddwyr cymwys a gofnodwyd gan bleidiau gwleidyddol a gofrestrodd i ymgyrchu yn refferendwm yr UE.

Argymhelliad 2: Dylai'r unigolion a'r cyrff hynny sy'n gymwys i gofrestru ac ymgyrchu ar gyfer refferendwm fod yr un peth â'r ymgyrchwyr cymwys hynny nad ydynt yn bleidiau mewn etholiadau. Dylid ystyried gallu ymgyrchwyr cymwys ychwanegol i roi a benthyg i ymgyrchwyr refferendwm arall.

Dylai'r rhestr o unigolion a chyrff sy'n gymwys i gofrestru fel ymgyrchydd mewn refferendwm fod yn gydnaws â'r rhestr o ymgyrchwyr cofrestredig cymwys nad ydynt yn bleidiau o dan Ddeddf 2000.

Dylid ystyried gallu ymgyrchwyr cymwys ychwanegol i roi a benthyg i ymgyrchwyr refferendwm arall. Bydd hi'n bwysig bod unrhyw newidiadau i gategoriâu o roddwyr a ganiateir yn cael eu diffinio'n glir, yn benodol o ran pleidiau gwleidyddol sy'n cofrestru i ymgyrch mewn refferendwm.

A ganiateir i gwmnïau wneud rhoddion a benthygiadau?

3.15 Yn y cyfnod yn arwain i fyny at y refferendwm, nododd ein gwaith monitro ar yr ymgyrch fod y cyfryngau yn ceisio dyfalu a gafodd ymgyrchwyr symiau sylweddol o gyllid i ymgyrchu gan roddwyr corfforaethol. Nododd ymgyrchwyr eu bod wedi derbyn cyfanswm o £6,142,569 mewn rhoddion gan gwmnïau; £3,631,171 i ymgyrchwyr 'Aros' a £2,511,399 i ymgyrchwyr 'Gadael'. Roedd rhoddion gan gwmnïau yn cyfateb i 20% o'r holl roddion

cofnodadwy yn ystod yr ymgyrch.³³

3.16 Yn ein hadolygiad rheoleiddiol o gyfreithiau cyllid pleidiau ac etholiadau'r DU yn 2013,³⁴ gwnaethom nodi nad yw'r rheolaethau presennol o ran rhoddion a ganiateir gan gwmnïau o dan Ddeddf 2000 yn llawn adlewyrchu argymhellion y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus yn ei bumed adroddiad, 'The Funding of Political Parties in the United Kingdom'.³⁵ Cynigiodd y Pwyllgor, er mwyn atal rhoddwyr o dramor rhag sianelu rhoddion drwy is-gwmnïau yn y DU, y dylai fod angen i is-gwmni ddangos ei fod yn cynnal busnes dilys yn y DU ac yn cynhyrchu incwm yma sy'n ddigonol i ariannu unrhyw rodd.

3.17 Rydym hefyd wedi nodi'n flaenorol bod ein hymchwiliadau i achosion posibl o dorri'r gyfraith yn ymwneud â'r rhodd-gwmnïau, Bearwood Corporate Services Ltd³⁶ a Fifth Avenue Partners Ltd,³⁷ wedi tynnu sylw at rai o oblygiadau'r prawf presennol o ran rhoddion a ganiateir gan gwmnïau. Gwnaethom amlinellu'r rhain yn ein cyflwyniad i ymchwiliad y Pwyllgor yn 2010 ar gyllid pleidiau gwleidyddol, a oedd yn cynnwys y canlynol:³⁸

- Mae cwmni nad yw wedi dechrau masnachu, ond sy'n paratoi i wneud hynny, yn debygol o ddod o fewn cwmphas y prawf 'cynnal busnes'.
- Nid yw Deddf 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i'r arian y mae cwmni yn ei roi ddod o'i weithgareddau masnachu ei hun.
- Nid yw Deddf 2000 yn diffinio cysyniadau 'asiantaeth' (lle mae rhywun yn gwneud rhodd drwy gyfryngwr) a 'cynnal busnes'.

3.18 Yn 2011, argymhellodd 13eg Adroddiad CSPL ymhellach y dylai cwmnïau sy'n gwneud rhoddion "*demonstrate that they are trading in the UK and earning sufficient income here to fund any donations.*"³⁹

Argymhelliad 3: Dylai Llywodraeth a Senedd y DU ailystyried y rheolaethau ar gadarnhau a yw cwmni yn rhoddwr a ganiateir.

Yn sgil y ffaith nad yw rheolaethau Deddf 2000 o ran cadarnhau a yw cwmni yn rhoddwr a ganiateir yn adlewyrchu argymhellion y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus yn llawn, ynghyd â goblygiadau'r prawf presennol o ran a

³³ [Mae gwybodaeth am y cyllid a'r gwariant a gofnodwyd ar gyfer ymgyrch refferendwm yr UE ar gael ar ein gwefan.](#)

³⁴ [Y Comisiwn Etholiadol, A regulatory review of the UK's party and election finance laws - Recommendations for change \(Mehfin 2013\).](#)

³⁵ [Committee on Standards in Public Life, Fifth Report: The Funding of Political Parties in the United Kingdom \(1998\),](#) paragraff 5.29.

³⁶ [Crynodeb achos y Comisiwn Etholiadol: Bearwood Corporate Services Limited \(2010\).](#)

³⁷ [Crynodeb achos y Comisiwn Etholiadol: 5th Avenue Partners Limited, \(2009\).](#)

³⁸ [The Electoral Commission's submission to the Committee on Standards in Public Life \(2010\).](#)

³⁹ [Y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus, Trydydd Adroddiad ar Ddeg: Political party finance Ending the big donor culture \(2011\),](#) Tudalen 65.

yw cwmni yn rhoddwr a ganiateir a danlinellwyd gan ein hymchwiliadau, dylai Llywodraeth y DU a, maes o law, y Senedd ailystyried y rheolaethau o ran a yw cwmni yn rhoddwr a ganiateir er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni nod sylfaenol y polisi sef atal rhoddion a benthyciadau gan gwmnïau o dramor.

Cadarnhau a yw rhoddion a benthyciadau yn rhai a ganiateir

3.19 Dengys ein hymchwil i ymgyrchwyr ar ôl y refferendwm⁴⁰ fod cyfran o ymgyrchwyr (22%) wedi cael anawsterau'n cadarnhau statws rhoddwyr neu fenthycwyr. Cododd ymgyrchwyr mawr a bach bryderon am eu gallu i gael y data priodol gan awdurdodau lleol er mwyn cadarnhau a ellid caniatáu rhoddion.

3.20 Nododd ymgyrchwyr fod awdurdodau lleol yn cadw'r data mewn amrywiaeth o fformatau ac nad ydynt bob amser yr un mor gymwynasgar. Hefyd nododd ymgyrchwyr, tra bydd gan bleidiau gwleidyddol setiau data mawr a ddatblygir dros amser er mwyn delio'n rhannol â'r materion hyn, nid yw hyn yn wir am ymgyrchwyr refferendwm. Awgrymodd ymgyrchwyr, at ddibenion sicrhau a roddir caniatâd, y dylid ystyried galluogi ymgyrchwyr refferendwm cofrestredig i gael gafael ar gofrestri etholiadol yn haws, gan gynnwys o un ffynhonnell, yn hytrach na bron i 400 o ffynonellau ar wahân.

3.21 Hoffem ddiolch i ymgyrchwyr am eu hadborth ar y materion hyn. Byddwn yn ystyried eu barn fel rhan o'n gwaith ar ystyried sut y gellid moderneiddio a gwella'r broses o greu a defnyddio cofrestri etholiadol, ond nid yw argymhelliad penodol yn briodol ar y cam hwn.

Pleidiau gwleidyddol Gogledd Iwerddon

3.22 Ers 2007, mae Deddf 2000 wedi rheoli rhoddion i bleidiau gwleidyddol yng Ngogledd Iwerddon; rheolwyd benthyciadau ers 2008. Yn wahanol i Brydain Fawr, mae adroddiadau ar roddion a benthyciadau yng Ngogledd Iwerddon yn dal i fod yn gyfrinachol ar hyn o bryd. Crëwyd y rheolau hyn oherwydd pryderon am y sefyllfa ddiogelwch yng Ngogledd Iwerddon a'r posibilrwydd o godi ofn ar roddwyr. Mae Deddf 2000 hefyd yn cydnabod rôl arbennig Iwerddon yn niwylliant gwleidyddol Gogledd Iwerddon drwy alluogi rhoddion gan ddinasyddion a sefydliadau Gwyddelig i bleidiau gwleidyddol yng Ngogledd Iwerddon.

3.23 Ceir cofrestri ar wahân ar gyfer pleidiau gwleidyddol sydd am ymladd etholiadau yng Ngogledd Iwerddon a Phrydain Fawr. Caiff pleidiau yng Ngogledd Iwerddon eu gwahardd rhag gwneud rhoddion i bleidiau ac endidau eraill a reoleiddir ym Mhrydain Fawr. Y rheswm dros hyn yw er mwyn sicrhau na chaiff cyllid gan ddinasyddion a sefydliadau Gwyddelig, a ganiateir ar gyfer pleidiau gwleidyddol yng Ngogledd Iwerddon yn unig, ei drosglwyddo i bleidiau gwleidyddol neu sefydliadau eraill a reoleiddir ym Mhrydain Fawr (gan na fyddai cyllid o'r ffynonellau hynny yn cael ei ganiatáu ym Mhrydain Fawr).

⁴⁰ [Research among permitted participants at the EU referendum - Justin Fisher \(Brunel University London\) & Bettina Rottweiler \(Brunel University London\) \(25 Awst 2016\).](#)

3.24 I'r gwrthwyneb, mae un gofrestr yn y DU ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm a gynhelir ledled y DU o dan Ddeddf 2000. Caiff plaid wleidyddol yng Ngogledd Iwerddon sy'n cofrestru i ymgyrchu yn y math hwn o refferendwm ddefnyddio unrhyw roddion a gaiff i ymgyrchu mewn unrhyw ran o'r DU, waeth ble mae wedi'i lleoli. Er enghraifft, nododd ein gwaith monitro ar yr ymgyrch fod y Metro (nad yw ar gael yng Ngogledd Iwerddon), ar 22 Mehefin 2016, wedi cyhoeddi hysbyseb tudalen lawn gan y Blaid Unoliaethwyr Democratiaidd o blaid pleidlais 'Gadael' yn refferendwm yr UE. Yn dilyn cyhoeddi'r ffurflenni ar ôl y refferendwm, nodwyd bod y blaid hon wedi gwario £282,000 ar yr hysbyseb yn y Metro a chafwyd sylwebaeth yn y cyfryngau ynghylch ffynhonnell yr arian hwnnw. Er y gall eraill gyhoeddi gwybodaeth, mae'r Comisiwn yn destun gwaharddiad statudol sy'n atal cyhoeddi gwybodaeth am ffynonellau rhoddion i bleidiau gwleidyddol yng Ngogledd Iwerddon, na gwneud sylwadau ar hynny.

3.25 Mae pleidiau yng Ngogledd Iwerddon sy'n cofrestru fel ymgyrchwyr refferendwm yn parhau i orfod cydymffurfio â'r rheolau cyfrinachedd o ran unrhyw roddion neu fenthyciadau a gânt. Fodd bynnag, os gwnânt rodd i ymgyrchydd arweiniol dynodedig, caiff manylion y rhodd hwnnw eu cyhoeddi.

3.26 Efallai yr hoffai Llywodraeth a Senedd y DU ystyried y mater hwn yng nghyd-destun unrhyw refferendwm yn y dyfodol. Rydym hefyd yn ymwybodol, ar adeg ysgrifennu, fod Llywodraeth y DU yn ymgynghori â'r pleidiau gwleidyddol yng Ngogledd Iwerddon ar dryloywder cyllid gwleidyddol yng Ngogledd Iwerddon yn y dyfodol.

Grant sydd ar gael i ymgyrchwyr arweiniol

3.27 Mae Deddf 2000 yn darparu y caiff ymgyrchwyr arweiniol dynodedig derfyn gwario uwch, costau postio ar gyfer un ymgyrch bostio, darllediadau ymgyrchu ar gyfer y refferendwm a grant cyhoeddus o hyd at £600,000.

3.28 Fodd bynnag, nid yw Deddf 2000 yn nodi swm y grant a ddylai fod ar gael ar gyfer pob refferendwm, at ba ddiben y dylid ei ddefnyddio na sut y dylai fod ar gael i unrhyw ymgyrchwyr arweiniol. Mae'r ddeddfwriaeth yn nodi mai'r Comisiwn sydd â'r rôl statudol o bennu swm a thelerau defnyddio unrhyw grant yng nghyd-destun pob refferendwm.

Ymdrin â grantiau yn refferendwm yr UE

3.29 Ar gyfer refferendwm yr UE, gwnaethom sicrhau bod yr uchafswm o £600,000 ar gael i bob ymgyrchydd arweiniol dynodedig.

3.30 Wrth wneud ein penderfyniad, gwnaethom ystyried argymhellion CSPL o 1998 a fu'n sail i'r fframwaith rheoleiddiol ar gyfer refferenda ac a gynigiodd yn benodol y dylai ymgyrchwyr arweiniol dynodedig dderbyn grantiau

cyhoeddus,⁴¹ y gwersi a ddysgwyd o refferenda 2011,⁴² ac amgylchiadau penodol refferendwm yr UE.

3.31 Yn ein barn ni, dylai swm a chwmpas y grant a oedd ar gael i'r ymgyrchwyr arweiniol dynodedig yn refferendwm yr UE gynyddu, yn unol â'r hyn a wnaed mewn refferenda blaenorol. Penderfynwyd y dylai fod modd defnyddio'r grant tuag at y costau sy'n gysylltiedig â'r buddiannau eraill sydd ar gael i ymgyrchwyr arweiniol dynodedig; anfon ymgyrch bostio am ddim a darllediadau ymgyrch y refferendwm. Gwnaed hyn er mwyn adlewyrchu adborth ymgyrchwyr arweiniol dynodedig mewn refferenda blaenorol ynghylch sut y gellid defnyddio'r grant yn well a mynd i'r afael â barn Bwrdd y Comisiwn na ddylem fod yn rhy ragnodol o ran y defnydd o'r grant.

3.32 Refferendwm yr UE oedd y tro cyntaf i ni ganiatáu i ymgyrchwyr arweiniol dynodedig ddefnyddio'r grant ar gyfer eitemau'n ymwneud â gwariant ar ymgyrchu yn ogystal â chostau gweinyddol. Gan nad yw'r grant wedi'i eithrio o'r diffiniad o dreuliau refferendwm yn Deddf 2000 ar gyfer treuliau penodol y telir amdanynt gan arian cyhoeddus,⁴³ roedd defnyddio'r grant ar eitemau o wariant wedi'i reoleiddio yn cyfrif tuag at derfynau gwario'r ymgyrchwyr arweiniol dynodedig. Gwnaeth hyn sicrhau tegwch rhwng ymgyrchwyr a bod modd cofnodi gwariant yn erbyn y grant yn ffurflenni gwariant yr ymgyrchwyr arweiniol.

3.33 Er mwyn diogelu arian cyhoeddus a sicrhau bod y grant yn cael ei weinyddu'n effeithlon, cadarnhaodd Deddf refferendwm yr UE bod y Comisiwn yn gallu talu'r grant mewn rhandaliadau. Gwnaed taliad cychwynnol o £200,000 o'r grant ac yna daliadau pellach ar ôl derbyn tystiolaeth o wariant cymwys neu gontractau i fynd i'r fath wariant, hyd at y swm llawn o £600,000.

Defnyddio'r grant yn refferendwm yr UE

3.34 Cafodd yr ymgyrchwyr arweiniol dynodedig wybod bod y grant ar gael, ynghyd â'i delerau ac amodau, pan y'u dynodwyd. Derbyniodd y ddau ymgyrchydd arweiniol dynodedig, Vote Leave Ltd a The In Campaign Ltd, y grant.

3.35 Ni wnaeth yr un ohonynt gwyno am swm y grant na'r hyn y gallai gael ei ddefnyddio ar ei gyfer. Hawliodd y ddau ymgyrchydd arweiniol dynodedig y grant yn llawn ac fe'i defnyddiwyd yn unol â'r telerau ac amodau. Mae'r symiau archwiliedig terfynol a dalwyd o dan y grant ar gael ar ein gwefan.⁴⁴

Gwersi ar gyfer refferenda yn y dyfodol

3.36 Gweithiodd y broses o ehangu cwmpas y grant i gynnwys costau anfon ymgyrch bostio am ddim a darllediadau ymgyrch y refferendwm, yn ogystal â

⁴¹ [Committee on Standards in Public Life, Fifth Report: The Funding of Political Parties in the United Kingdom \(1998\)](#), paragraff 5.29.

⁴² [Mae adroddiadau'r Comisiwn Etholiadol ar refferenda 2011](#) ar gael ar ein gwefan.

⁴³ Paragraff 2(a) atodlen 13 Deddf 2000 (eithriad o'r diffiniad o dreuliau Refferendwm ar gyfer treuliau penodol y telir amdanynt gan arian cyhoeddus).

⁴⁴ [Mae'r hawliadau grant a'r anfonebau a derbynebau ategol ar gael ar ein gwefan.](#)

chostau gweinyddol eraill, yn dda. Cydbwysodd roi peth arian cyhoeddus i ymgyrchwyr arweiniol dynodedig er mwyn creu sylfaen gyfartal i dalu costau craidd â chymorth cyfyngedig i ymgyrchu, i'r graddau y mae Deddf 2000 yn darparu ar gyfer gweithgareddau ymgyrchu penodol i fod ar gael i ymgyrchwyr arweiniol. Ar gyfer refferenda yn y dyfodol, byddwn yn ystyried a yw'r camau hyn yn briodol yng nghyd-destun pob digwyddiad.

3.37 Fodd bynnag, cawsom ein beirniadu gan un ymgyrchydd arweiniol dynodedig ynghylch y broses o dalu'r grant a oedd yn gofyn am dystiolaeth o wario'r swm cychwynnol llawn cyn rhyddhau symiau pellach. Ym marn yr ymgyrchydd arweiniol dynodedig roedd y broses yn rhy ragnodol o dan amgylchiadau lle gallai ddangos tystiolaeth o wariant cymwys uwchlaw'r taliad cychwynnol. Awgrymodd y dylai'r grant llawn fod yn daladwy ar sail tystiolaeth o wariant cymwys.

3.38 Rydym yn cydnabod yr adborth a gafwyd gan yr ymgyrchydd arweiniol dynodedig. Yng nghyd-destun unrhyw refferendwm yn y dyfodol, byddwn yn ystyried a ddylai'r broses o dalu'r grant gynnwys yr opsiwn i dalu'r grant llawn mewn un rhandaliad ar sail tystiolaeth o wariant cymwys.

Argymhelliad 4: Dylai gallu'r Comisiwn i dalu'r grant ymgyrchydd arweiniol mewn rhandaliadau gael ei ymgorffori yn Neddf 2000.

Er mwyn gwarchod arian cyhoeddus a sicrhau bod y grant yn cael ei weinyddu'n effeithlon, dylai gallu'r Comisiwn i dalu'r grant sydd ar gael i ymgyrchwyr arweiniol mewn rhandaliadau gael ei ymgorffori yn Neddf 2000 fel ei fod yn gymwys i bob refferendwm a gynhelir yn y dyfodol.

Gwariant ar ymgyrchu

Terfynau gwario

3.39 Mae'r terfynau gwario sy'n gymwys mewn refferenda yn rhan ganolog o reoleiddio ymgyrchwyr. Dylai'r terfynau fod ar lefel sy'n ddigonol i alluogi ymgyrchwyr i drosglwyddo eu negeseuon i bleidleiswyr ond gan atal gwariant gormodol. Mae'n bwysig nad yw'r terfynau yn codi cwestiynau am degwch a all niweidio ymddiriedaeth pleidleiswyr yn y rheolau neu danseilio canlyniad y refferendwm efallai.

3.40 Bu'n ofynnol i bob ymgyrchydd, gan gynnwys pleidiau gwleidyddol cofrestredig, a oedd yn bwriadu gwario mwy na £10,000 ar ymgyrchu yn refferendwm yr UE, gofrestru â'r Comisiwn. Ar ôl cofrestru, gallai ymgyrchwyr, ymhlith buddiannau eraill, gael terfyn gwario oedd dros £10,000.

3.41 Nodir y terfynau gwario ar gyfer refferenda'r DU yn Neddf 2000 ac maent yn berthnasol yn ystod cyfnod y refferendwm – ar gyfer Refferendwm yr UE roedd hyn rhwng 15 Ebrill a 23 Mehefin 2016. Yn achos ymgyrchwyr cofrestredig sydd hefyd yn bleidiau gwleidyddol cofrestredig, pennir lefelau amrywiol yn ôl canran y bleidlais a gafodd y blaid yn yr etholiad cyffredinol

Seneddol diwethaf. Cynyddodd deddfwriaeth refferendwm yr UE derfynau gwario Deddf 2000 (a bennwyd yn 2000) er mwyn rhoi cyfrif am chwyddiant.

3.42 Rhydd y tabl isod grynodedb o wariant ymgyrchwyr a gofnodwyd yn erbyn eu priod derfynau. Ceir manylion llawn gwariant a gofnodwyd gan ymgyrchwyr cofrestredig yn refferendwm yr UE ar ein gwefan.⁴⁵

Tabl 5: Gwariant a gofnodwyd yn erbyn terfynau gwario refferendwm yr UE

Ymgyrchydd ⁴⁶	Terfyn	Swm a wariwyd	% y terfyn
The In Campaign Ltd	£7,000,000	£6,767,584	97%
Vote Leave Ltd	£7,000,000	£6,747,466	96%
Y Blaid Lafur	£5,500,000	£4,859,243	88%
Plaid Annibyniaeth y DU	£4,000,000	£1,354,393	34%
Y Democratiaid Rhyddfrydol	£3,000,000	£2,223,901	74%
Plaid Unoliaethwyr Democratiaidd	£700,000	£425,622	61%
Y Blaid Werdd	£700,000	£48,815	7%
Plaid Cymru	£700,000	£27,495	4%
Plaid Genedlaethol yr Alban	£700,000	£90,830	13%
Cyfansymiau cyfunol 58 o ymgyrchwyr cofrestredig eraill ⁴⁷	£40,600,000	£10,101,809	25%

Barn ymgyrchwyr

3.43 Dangosodd y cyfweiliadau a oedd yn rhan o'n hymchwil i ymgyrchwyr ar ôl y refferendwm⁴⁸, er bod rhai ymgyrchwyr o'r farn bod y terfynau gwario'n briodol, fod y grwpiau ymgyrchu mwy (yn rhai dynodedig a heb eu dynodi) o'r farn bod y terfynau ar gyfer grwpiau dynodedig yn llawer rhy isel ac afrealistig o ystyried gofynion ymgyrchu modern. Reoddent yn teimlo bod y terfynau'n isel o gymharu â refferendwm yr Alban ar annibyniaeth a therfynau gwario

⁴⁵ [Mae gwybodaeth am y cyllid a'r gwariant a gofnodwyd ar gyfer ymgyrch refferendwm yr UE ar gael ar ein gwefan.](#)

⁴⁶ Ni wnaeth y Blaid Geidwadol ac Unoliaethol gofrestru fel ymgyrchydd yn y refferendwm. Dim ond gwario hyd at y trothwy cofrestru o £10,000 y gall ymgyrchwyr anghofrestredig ei wneud.

⁴⁷ Cyflwynodd 48 o ymgyrchwyr eraill naill ai 'dim' neu ddatganiadau gwario a oedd o dan y trothwy cofrestru, gan gynnwys 10 o bleidiau gwleidyddol eraill. Methodd saith ymgyrchydd â chyflwyno ffurflenni ac maent yn destun camau gorfodi.

⁴⁸ [Research among permitted participants at the EU referendum - Justin Fisher \(Brunel University London\) & Bettina Rottweiler \(Brunel University London\) \(25 Awst 2016\).](#)

ymgyrchoedd cenedlaethol pleidiau gwleidyddol mewn etholiadau.⁴⁹ Hefyd, dadleuwyd bod gan bleidiau gwleidyddol adnoddau ôl-weithredol sylweddol, megis cronfeydd data, tra bod yn rhaid i ymgyrchoedd refferendwm eu datblygu o'r newydd, gan fynd i gostau mawr, a oedd yn cyfrif yn erbyn eu terfyn gwario.

3.44 Cafwyd beirniadaeth bellach o ran y trothwy cofrestru ar gyfer ymgyrchwyr anghofrestredig. Honnodd ymatebwyr fod ymgyrchu digidol wedi lleihau costau'n sylweddol ac felly *"gallai'r trothwy cofrestru o £10,000 guddio'n hawdd lefelau sylweddol o weithgarwch ymgyrchu ar-lein, ond nad yw'n dryloyw"*.

Barn pleidleiswyr

3.45 Fel y nodwyd uchod, dylai'r terfynau gwario fod ar lefel sy'n ddigonol i alluogi ymgyrchwyr i drosglwyddo eu negeseuon i bleidleiswyr ond gan atal gwariant gormodol. Dangosodd ein hymchwil i farn y cyhoedd ar ôl y refferendwm⁵⁰:

- Dywedodd 84% eu bod yn gwybod cryn dipyn neu eithaf tipyn am ddiben y refferendwm.
- Dywedodd 63% fod ganddynt ddigon o wybodaeth am yr ymgyrchoedd 'Aros' a 'Gadael' i allu gwneud penderfyniad hyddysg ynghylch sut i bleidleisio.
- Roedd 65% yn cytuno'n gryf neu'n dueddol o gytuno bod ganddynt ddigon o wybodaeth am yr hyn fyddai'n digwydd yn sgil pleidlais 'Aros'.
- Roedd 45% yn cytuno'n gryf neu'n dueddol o gytuno bod ganddynt ddigon o wybodaeth am yr hyn fyddai'n digwydd yn sgil pleidlais 'Gadael'.

3.46 Yn sgil y dystiolaeth o wariant ar ymgyrchu ac ymwybyddiaeth pleidleiswyr yn refferendwm yr UE, gellid cyfiawnhau addasu terfynau gwario refferendwm Deddf 2000 er mwyn adlewyrchu newidiadau mewn chwyddiant ar gyfer refferenda yn y dyfodol; fodd bynnag, nid oes gennym rôl statudol o ran cynghori ar derfynau gwario mewn refferenda a gynhelir yn y DU o dan Ddeddf 2000.

Argymhelliad 5: Dylai Llywodraeth a Senedd y DU ystyried y dystiolaeth o refferendwm yr UE wrth ystyried a yw terfynau gwario Deddf 2000 yn dal i fod yn briodol.

Nid oes gan y Comisiwn rôl statudol benodol o ran cynghori ar derfynau gwario mewn refferenda a gynhelir yn y DU o dan Ddeddf 2000. Serch hynny, mae'n bwysig bod Llywodraeth a Senedd y DU yn ystyried y dystiolaeth o

⁴⁹ Mae terfynau gwario pleidiau gwleidyddol yn etholiadau cyffredinol Senedd y DU yn seiliedig ar nifer yr ymgeiswyr sy'n sefyll gan y blaid. Y terfyn gwario mwyaf posibl yw £19.5m.

⁵⁰ [Electoral Commission post EU Referendum research 2016.](#)

refferendwm yr UE wrth ystyried a yw terfynau gwario refferendwm Deddf 2000, gan gynnwys y trothwy cofrestru, yn dal i fod yn briodol yng nghydestun unrhyw refferendwm a gynhelir yn y DU yn y dyfodol.

Costau staff

3.47 Yn adolygiad rheoleiddiol 2013 o gyfreithiau cyllid pleidiau ac etholiadau'r DU,⁵¹ gwnaethom dynnu sylw at y ffaith bod costau staff a gyflogir yn uniongyrchol wedi'u heithrio o'r diffiniad o wariant ar ymgyrchu gan bleidiau gwleidyddol mewn etholiadau ac ymgyrchwyr mewn refferenda a gynhelir o dan Ddeddf 2000. Felly, nid yw costau staff a gyflogir yn uniongyrchol a ddefnyddir mewn ymgyrch yn cyfrif tuag at derfynau gwario pleidiau gwleidyddol nac ymgyrchwyr mewn etholiadau a refferenda.

3.48 Mae eithrio costau staff cyflogedig uniongyrchol o'r rheolaethau gwario uchod yn anghysondeb yn y rheolau, o ystyried bod costau staffio ymgeiswyr ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau wedi'u cwmpasu gan y rheolaethau mewn etholiadau. Mae'r eithriad yn golygu nad yw'r rheolaethau o ran gwariant pleidiau mewn etholiadau a refferenda yn cwmpasu rhan fawr o'r gwariant ar ymgyrchu mewn etholiadau a refferenda o bosibl.

3.49 Er enghraifft, nododd ein gwaith monitro ar ymgyrch refferendwm yr UE sylwebaeth yn y cyfryngau fod Vote Leave Ltd eisoes wedi cyflogi 30 o aelodau o staff parhaol erbyn diwedd 2015; Leave.EU 84 o aelodau o staff a The In Campaign Ltd 20 o aelodau o staff. Hefyd, cafwyd sylw yn y cyfryngau bod Vote Leave Ltd yn cyflogi 46 o aelodau o staff proffesiynol i weithio ar yr ymgyrch 'ar lawr gwlad', bod The In Campaign Ltd wedi recriwtio o leiaf bum aelod o dîm etholiad y Blaid Geidwadol i gyflawni rolau o fewn y cwmni, a bod Leave.EU wedi cyflogi 60 o bobl yn y ganolfan alwadau.

3.50 Hefyd nododd yr ymgyrchwyr arweiniol dynodedig nifer o'u staff allweddol fel rhan o'u ceisiadau dynodedig.⁵² Er enghraifft, nododd cais The In Campaign Ltd fod ei strwythur yn cynnwys aelodau Bwrdd, Cyfarwyddwyr Maes Rhanbarthol, Pennaeth Gweithrediadau Maes a Thimau Ymchwil. Tynnodd Vote Leave Ltd sylw at ei Fwrdd, pwyllgorau ymgyrchu ac uwch dîm rheoli.

3.51 I'r graddau y cafodd staff ymgyrchwyr yn refferendwm yr UE eu cyflogi'n uniongyrchol, nid oedd y costau yr aed iddynt yn ystod cyfnod y refferendwm yn cyfrif fel gwariant ar ymgyrchu nac yn cyfrif tuag at derfynau gwariant, ac nid oedd angen eu cofnodi yn y ffurflenni ar ôl y refferendwm. Hefyd nid oedd rhoddion tuag at gostau staff a gyflogir yn uniongyrchol yn cael eu rheoleiddio na'u cofnodi.⁵³

⁵¹ [Y Comisiwn Etholiadol, A regulatory review of the UK's party and election finance laws - Recommendations for change \(Mehfin 2013\).](#)

⁵² [Mae'r ceisiadau dynodi a'n papurau penderfyniadau](#) ar gael ar ein gwefan.

⁵³ [Mae gwybodaeth am y cyllid a'r gwariant a gofnodwyd ar gyfer ymgyrch refferendwm yr UE ar gael ar ein gwefan.](#)

3.52 Fel y nodwyd gennym yn ein hadolygiad rheoleiddiol yn 2013,⁵⁴ byddai cynnwys costau staff cyflogedig uniongyrchol o fewn cwmpas y rheolaethau ar wariant yn arwain at gryn oblygiadau y byddai angen eu hystyried cyn y gellid gwneud y newid. Byddai'n gosod beichiau gweinyddol newydd ar bleidiau ac ymgyrchwyr refferendwm, byddai heriau o ran amcangyfrif amser staff (yn enwedig ar gyfer sefydliadau a oedd yn bodoli eisoes), a byddai angen ailedrych ar derfynau gwario etholiadau a refferenda.

3.53 Fodd bynnag, er gwaethaf yr heriau, yn 2013 gwnaethom gynnig dau opsiwn posibl ar gyfer rheoleiddio costau staff ymgyrchu cyflogedig uniongyrchol. Roedd y rhain yn darparu ar gyfer naill ai cynnwys costau pob aelod o staff – gan gynnwys cyflogeion parhaol – y mae eu rôl yn ymwneud yn bennaf neu'n gyfan gwbl ag ymgyrchu yn ystod y cyfnod a reoleiddir / cyfnod y refferendwm, neu gynnwys costau staff dros dro neu gyfnod penodol yn unig y mae eu rôl yn ymwneud yn bennaf neu'n gyfan gwbl ag ymgyrchu yn ystod y cyfnod a reoleiddir / cyfnod y refferendwm. Hyd yn hyn, nid yw'r Llywodraeth wedi rhoi'r naill opsiwn na'r llall (nac unrhyw opsiwn arall ar gyfer rheoleiddio costau staff ymgyrchu a gyflogir yn uniongyrchol) ar waith.

Argymhelliad 6: Dylai costau staff sy'n gysylltiedig ag ymgyrch gael eu cynnwys yn y terfynau ar wariant ymgyrchu pleidiau gwleidyddol mewn etholiad neu refferendwm.

Er mwyn sicrhau cysondeb rhwng y rheolaethau ar ymgyrchwyr refferendwm, staff ymgyrchu pleidiau, ymgeiswyr ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau, yn ogystal â chau bwch mewn rhan fawr o wariant ymgyrchu mewn etholiadau a refferenda, dylai costau staff sy'n gysylltiedig ag ymgyrch gael eu cynnwys yn y terfynau ar wariant ymgyrchu pleidiau gwleidyddol mewn etholiad a refferendwm.

Rheoleiddio ymgyrchwyr sy'n mynd i wariant ar y cyd

3.54 Ers 2011, mae deddfwriaeth refferendwm ar gyfer pob refferendwm yn y DU wedi cynnwys darpariaethau dosrannu ac adrodd er mwyn mynd i'r afael ag amgylchiadau lle mae ymgyrchwyr yn mynd i wariant ar y cyd. Nod y rheolaethau yw atal ymgyrchwyr rhag sefydlu sawl grŵp ymgyrchu er mwyn osgoi rheolaethau ar wariant, tra'n rhoi'r rhyddid i ymgyrchwyr gydweithio er mwyn cyfleu neges unedig i bleidleiswyr.

3.55 Ar gyfer refferendwm yr UE, nododd y darpariaethau gwariant ar y cyd y canlynol:

- Rhaid i bob ymgyrchydd sy'n mynd i wariant ar y cyd roi cyfrif am yr holl wariant yr eir iddo gan bawb dan sylw yn erbyn ei derfyn gwario ei hun.

⁵⁴ [Y Comisiwn Etholiadol, A regulatory review of the UK's party and election finance laws - Recommendations for change \(Mehfin 2013\).](#)

- Cafwyd eithriad os oedd y gwariant ar y cyd yn cynnwys ymgyrchydd arweiniol dynodedig. O dan yr amgylchiadau hynny, roedd cyfanswm y gwariant yr aed iddo gan ymgyrchwyr cofrestredig eraill ond yn cyfrif tuag at derfyn gwario'r ymgyrchydd arweiniol dynodedig.

3.56 Roedd hefyd yn ofynnol i ymgyrchwyr gynnwys enwau'r rheini y gwnaethant weithio gyda nhw a faint y gwnaeth pob un ohonynt ei wario yn eu ffurflen gwariant ar ôl y refferendwm. Dyma'r tro cyntaf i'r gofyniad adrodd ychwanegol pwysig hwn fod yn gymwys a gwellodd dryloywder ac effeithiolrwydd cyffredinol y rheolaethau. Dylai gael ei gynnwys yn Neddf 2000 ar gyfer refferenda yn y dyfodol.

3.57 Ni wnaeth yr ymgyrchwyr arweiniol dynodedig yn refferendwm yr UE gofnodi unrhyw wariant ar y cyd. Cofnododd ymgyrchwyr cofrestredig eraill wariant ar y cyd o £127,627.⁵⁵ Ceir manylion llawn cyllid a gwariant ar ymgyrchu a gofnodwyd yn refferendwm yr UE ar ein gwefan.⁵⁶ Rydym yn ystyried nifer o faterion o dan ein Polisi Gorfodi yn dilyn arolygiad cychwynnol o'r ffurflenni gwariant a rhoddion a gyflwynwyd gan ymgyrchwyr.

Barn ymgyrchwyr

3.58 Yn ein hymchwil i ymgyrchwyr ar ôl y refferendwm,⁵⁷ dywedodd 56% o ymatebwyr fod y rheolau ar wariant ar y cyd yn rhy anodd eu deall. Dim ond 16% a nododd fod y rheolau'n hawdd. Hefyd, tanlinellodd y cyfweiliadau ag ymgyrchwyr anawsterau gyda'r rheolau, gydag ymatebwyr yn dadlau bod y rheolau, i bob diben, yn atal cydlynu swyddogol am eu bod yn peri gormod o risg o ran cydymffurfiaeth.

3.59 Yn ymarferol, awgrymodd ymgyrchwyr fod cymhlethdod y rheolau a'r ansicrwydd ynghylch cydymffurfiaeth yn golygu bod llai o gydlynu swyddogol ac nad oedd yn cael ei annog. Fel rhan o'n hymchwil i ymgyrchwyr ar ôl y refferendwm, ychydig iawn o ymgyrchwyr a nododd eu bod wedi cydweithio'n ffurfiol ag eraill a phenderfynodd cryn dipyn beidio â chydweithio ar ôl ystyried yr opsiwn. Yn gyffredinol, ni wnaeth 79% o ymatebwyr weithio gyda'r ymgyrchydd arweiniol ac ni wnaeth 72% weithio gydag ymgyrchwyr eraill. Dangosodd yr ymchwil fod ymgyrchwyr 'Gadael', grwpiau canolig / mawr a phleidiau gwleidyddol yn llai tebygol o weithio gydag ymgyrchwyr eraill nas dynodwyd.

Asesiad o'r rheolaethau sy'n rheoleiddio gwariant ar y cyd

3.60 Mae'n bwysig bod y rheolau sy'n rheoleiddio refferenda yn cynnwys darpariaethau i atal ymgyrchwyr rhag osgoi'r terfynau gwario drwy sefydlu sawl grŵp ymgyrchu. Heb reolaethau o'r fath, ni fyddai'r terfynau gwario'n effeithiol. Fodd bynnag, mae'r un mor bwysig bod rhyddid i ymgyrchwyr gydweithio er mwyn cyfleu neges unedig i bleidleiswyr.

⁵⁵ Cyfanswm y gwariant a gofnodwyd gan bob ymgyrchydd unigol tuag at wariant ar y cyd.

⁵⁶ [Mae gwybodaeth am y cyllid a'r gwariant a gofnodwyd ar gyfer ymgyrch refferendwm yr UE ar gael ar ein gwefan.](#)

⁵⁷ [Research among permitted participants at the EU referendum - Justin Fisher \(Brunel University London\) & Bettina Rottweiler \(Brunel University London\) \(25 Awst 2016\).](#)

3.61 Er ei bod yn bosibl i'r rheolau ar wariant ar y cyd a oedd yn gymwys i refferendwm yr UE gyflawni'r nod o atgyfnerthu'r rheolaethau ar wariant, cydnabyddwn yr adborth gan ymgyrchwyr ynghylch cymhlethdod a diffyg sicrwydd y rheolau. Hefyd, cydnabyddwn y canlyniad anfwriadol y gallai'r rheolau, yn ymarferol, atal ymgyrchwyr rhag mynd i wariant ar y cyd dilys. Cafodd pryderon am effeithiolrwydd y rheolau ar wariant ar y cyd eu codi hefyd yn y cyfryngau ac yn uniongyrchol gyda'r Comisiwn. Gallai hyn danseilio hyder y cyhoedd yn y rheolaethau rheoleiddiol.

3.62 O'n cyswllt ag ymgyrchwyr yn ystod ac ar ôl y refferendwm, mewn sawl achos, nid oedd ymgyrchwyr yn barod i gymryd dehongliad rhy gyfyngedig o'r rheolau ar wariant ar y cyd. Roedd ymgyrchwyr yn arbennig o ofalus ynghylch cynnal raliâu a digwyddiadau eraill gyda grwpiau eraill neu a oedd yn cyfeirio at yr ymgyrchwyr arweiniol dynodedig. Bydd p'un a yw gweithgareddau yn cyfrif fel gwariant ar y cyd yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol ond, yn gyffredinol, mae ymateb ymgyrchwyr i'r maes rheoleiddio hwn yn ddealladwy; yn enwedig pan fo torri'r terfynau gwario'n drosedd.

3.63 Fodd bynnag, yr adborth gan ymgyrchwyr yw bod ymgyrchwyr mwy a oedd â'u timau cyfreithiol a chydymffurfiaeth eu hunain yn pryderu llai am y rheolau ar wariant ar y cyd, fel yr oedd ymgyrchwyr a gysylltodd â'r Comisiwn am gyngor. Er ein bod yn annog ymgyrchwyr i gymryd camau rhagweithiol i geisio cyngor pwrpasol gan y Comisiwn ar faterion cymhleth, gallai Llywodraeth a Senedd y DU helpu ymhellach drwy egluro'r hyn sy'n gyfystyr â gwariant ar y cyd. Er ein bod ni'n gwneud argymhellion i newid, nid yw hynny'n golygu nad oedd y rheolau sy'n berthnasol yn refferendwm yr UE yn ddigon clir i alluogi ymgyrchwyr i allui cydymffurfio, ac fe ddylent fod wedi.

3.64 Bydd mwy o eglurhad gan y Llywodraeth a'r Senedd yn gwella ein gallu i roi cyngor ac arweiniad penodol i ymgyrchwyr ar y rheolau ar wariant ar y cyd ac yn helpu i leddfu pryderon ymgyrchwyr. Dylai hyn gynnwys y canlynol yn benodol:

- Gwneud yn glir beth yw cwmpas y term cyfreithiol 'cynllun neu drefniant arall'
Mae'r term cyfreithiol 'cynllun neu drefniant arall' yn eang iawn a byddai'n cael budd o'i egluro'n fwy; yn arbennig dylai'r math o weithgareddau y mae angen eu rheoleiddio fod yn fwy penodol. Er enghraifft, byddai mwy o eglurder ynghylch p'un a gaiff gweithgareddau megis cydlynu ymgyrchoedd (e.e. o ran daearyddiaeth neu amseru), rhoi cyngor i ymgyrchwyr eraill, trafod dulliau gweithredu cyffredinol, rhannu gwybodaeth ac ati eu rheoleiddio fel gwariant ar y cyd o fudd i ymgyrchwyr.
- Diffinio beth a olygir gan y ffaith mai 'gan neu ar ran' y rheini sydd ynghlwm wrth y gwariant ar y cyd y mae'n rhaid mynd i dreuliau refferendwm
Er mwyn dod o dan gwmpas y rheolau ar wariant ar y cyd, rhaid mai 'gan neu ar ran' yr ymgyrchydd ac 'un neu fwy o unigolion neu gyrff eraill'

yr eir i dreuliau refferendwm. Fodd bynnag, ni ddiffinnir 'ar ran' yn Neddf 2000⁵⁸ ac, fel y cyfryw, gellir cael sawl dehongliad. Mae'r dehongliadau posibl yn amrywio o orfod cael y treuliau wedi'u hawdurdodi gan berson cyfrifol pob ymgyrchydd i ystyried bod treuliau "ar ran" ymgyrchydd yn syml os caiff fudd o'r gwariant. Ceir problemau tebyg mewn rhannau eraill o Ddeddf 2000 lle defnyddir yr ymadrodd hwn.

- Ystyried a ddylai'r rheolau ar wariant ar y cyd ei gwneud yn benodol ofynnol i bob ymgyrchydd dan sylw fynd i dreuliau refferendwm a reoleiddir ai peidio, er mwyn i'r rheolau fod yn berthnasol
Byddai'n fuddiol ystyried a ddylai'r rheolau ei gwneud yn benodol ofynnol i bawb dan sylw fynd i dreuliau a reoleiddir ai peidio, er mwyn i'r rheolau fod yn berthnasol. Byddai hyn yn helpu i roi mwy o sicrwydd ynghylch p'un a sbardunwyd y darpariaethau o ran gwariant ar y cyd. Fodd bynnag, gallai godi cwestiynau am y graddau y mae gweithredu fel 'meddwl rheoli' rhwng gwahanol rannau o ymgyrch a redir gan ymgyrchwyr annibynnol (yn hytrach nag ymgyrch a ariennir ar y cyd) wedi'i gwmpasu gan y rheolau ar wariant ar y cyd.

3.65 Wrth ystyried sut y dylid egluro'r rheolau ar wariant ar y cyd, bydd yn bwysig i Lywodraeth a Senedd y DU ystyried yr amrywiaeth o ffyrdd y mae ymgyrchwyr yn cydweithio â'i gilydd nad ydynt yn cael eu cyfyngu na'u rhwystro gan y rheolau. Bydd hyn yn sicrhau bod y rheolau diwygiedig ar wariant ar y cyd yn cymhwyso cyfyngiadau cymesur ar y gweithgareddau y bwriedir iddynt osgoi'r rheolaethau rheoleiddiol tra'n rhoi'r rhyddid priodol i ymgyrchwyr ryngweithio er mwyn cyfleu eu negeseuon ymgyrchu i bleidleiswyr.

3.66 Er enghraifft, rydym yn ymwybodol y bu dryswch ymhlith ymgyrchwyr ynghylch p'un a yw gwneud rhoddion i ymgyrchwyr eraill yn sbarduno'r rheolau ar wariant ar y cyd. Hefyd, dywedodd ymgyrchwyr wrthym eu bod yn synnu bod hawl ganddynt i wneud rhoddion i ymgyrchwyr cofrestredig eraill, yn enwedig pan fo'r rheolau yn atal pleidiau gwleidyddol rhag gwneud rhoddion i ymgyrchwyr cofrestredig heblaw am yr ymgyrchwyr arweiniol dynodedig. Yn ymarferol, nododd ymgyrchwyr yn refferendwm yr UE fod cyfanswm o £800,998 yn rhoddion rhwng ymgyrchwyr cofrestredig⁵⁹ a bod £17,360 yn wariant tybiannol yr aed iddo gan ymgyrchwyr cofrestredig ar ran ymgyrchwyr cofrestredig eraill.

3.67 Yn ogystal â'r eglurhad uchod gan Lywodraeth a Senedd y DU, pan gaiff y rheolaethau ar wariant ar y cyd eu hymgorffori yn Neddf 2000, byddai'n fuddiol i'r Comisiwn hefyd gael y pŵer i Lunio Cod Statudol er mwyn ein galluogi i egluro unrhyw faterion pellach a all godi yn y dyfodol.

⁵⁸Nodwn fod yr un ymadrodd yn cael ei ddiffinio mewn perthynas â gwariant ymgeiswyr yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl - a.90ZA(4), awdurdodir gwariant "gan neu ar ran" ymgeisydd os yr eir iddo gan yr ymgeisydd, ei asiant etholiad, neu rywun a awdurdodwyd i fynd i wariant gan un o'r ddau.

⁵⁹Gan gynnwys £750,315 mewn rhoddion gan Vote leave Ltd i ymgyrchwyr cofrestredig eraill.

3.68 Rydym hefyd yn ymwybodol bod adroddiad yr Arglwydd Hodgson, sef *Third Party Election Campaigning – Getting the Balance Right – Review of the operation of the third party campaigning rules at the 2015 General Election*⁶⁰ yn argymhell y dylai'r rheolaethau ar wariant ar y cyd ar drydydd partïon mewn etholiadau gael eu hadolygu.

3.69 Yn ein hymateb i adroddiad yr Arglwydd Hodgson,⁶¹ gwnaethom gefnogi'r egwyddor y dylai'r ddeddfwriaeth yn y maes hwn ganolbwyntio ar atal osgoi'r terfynau gwario gyda chymaint o eglurhad a symlrwydd â phosibl. Er bod gwahaniaethau clir rhwng trydydd partïon mewn etholiadau ac ymgyrchwyr refferendwm, mae bwriad polisi sylfaenol y rheolaethau yr un fath. Fel y cyfryw, mae egwyddor yr Arglwydd Hodgson yr un mor berthnasol i'r rheolaethau ar wariant ar y cyd sy'n gymwys i ymgyrchwyr refferendwm.

Argymhelliad 7: Dylai rheolaethau ar wariant ar y cyd gael eu hymgorffori yn Neddf 2000.

Er mwyn helpu i sicrhau uniondeb ac effeithiolrwydd y rheolau ar wariant mewn refferendwm, dylai rheolaethau priodol gael eu hymgorffori yn Neddf 2000 er mwyn rheoleiddio ymgyrchwyr sy'n mynd i wariant ar y cyd fel eu bod yn gymwys i bob refferendwm a gynhelir yn y dyfodol. Er mwyn gwella tryloywder a gorfodadwyedd, dylai'r rheolaethau gynnwys gofyniad i ymgyrchwyr gynnwys enwau'r rheini y gwnaethant weithio gyda nhw a faint y gwnaeth pob un ohonynt ei wario yn eu ffurflen gwariant ar ôl y refferendwm.

Er mwyn lleihau cymhlethdod a galluogi'r Comisiwn i roi cyngor ac arweiniad cliriach i ymgyrchwyr, dylai Llywodraeth a Senedd y DU egluro beth sy'n gyfystyr â gwariant ar y cyd at ddibenion rheoleiddio gwariant mewn ymgyrch refferendwm. Dylai hyn gynnwys y canlynol yn benodol:

- Gwneud yn glir beth yw cwmpas y term cyfreithiol 'cynllun neu drefniant arall'
- Diffinio beth a olygir gan y ffaith mai 'gan neu ar ran' y rheini sydd ynghlwm wrth y gwariant ar y cyd y mae'n rhaid mynd i dreuliau refferendwm
- Ystyried a ddylai'r rheolau ar wariant ar y cyd ei gwneud yn benodol ofynnol i bob ymgyrchydd dan sylw fynd i dreuliau refferendwm a reoleiddir ai peidio, er mwyn i'r rheolau fod yn berthnasol.

Yn ogystal â'r eglurhad uchod, pan gaiff y rheolaethau ar wariant ar y cyd eu hymgorffori yn Neddf 2000, dylai'r Comisiwn gael y pŵer i Lunio Cod Statudol er mwyn ein galluogi i egluro unrhyw faterion pellach a all godi yn y dyfodol.

⁶⁰ [Yr Arglwydd Hodgson - *Third Party Election Campaigning – Getting the Balance Right – Review of the operation of the third party campaigning rules at the 2015 General Election* \(Mawrth 2016\).](#)

⁶¹ [Ymateb y Comisiwn Etholiadol i Adroddiad yr Arglwydd Hodgson ar Ymgyrchu Etholiadol Trydydd Partïon.](#)

Argraffnodau ar ddeunydd electronig

3.70 Er mwyn ystyried dulliau ymgyrchu modern, y ddeddfwriaeth ar gyfer refferendwm 2014 ar annibyniaeth yr Alban oedd y gyntaf yn y DU i gyflwyno gofynion argraffnod ar ddeunydd ymgyrchu nad oedd yn cael ei argraffu, megis gwefannau, gohebiaeth electronig a'r cyfryngau cymdeithasol. Nid oedd y rheolaethau estynedig hyn ar argraffnodau yn gymwys i refferendwm yr UE gan olygu mai dim ond ar ddeunydd argraffedig yr oedd yn ofynnol i ymgyrchwyr gynnwys argraffnod yn gyfreithiol. Fodd bynnag, gwnaethom gynghori y dylai argraffnodau gael eu cynnwys ar bob math o ddeunydd ymgyrchu, fel mater o arfer da.

3.71 Defnyddiwyd y cyfryngau cymdeithasol i ymgyrchu yn refferendwm yr UE yn helaeth. Felly, mae'n bwysig o hyd bod pob deunydd ymgyrchu yn cynnwys argraffnod fel ei bod yn glir i bleidleiswyr pwy yw'r ymgyrchydd, waeth p'un a yw ar bapur neu heb ei argraffu. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig bod y rheolau'n taro'r cydbwysedd cywir rhwng sicrhau tryloywder o ran pwy sy'n ymgyrchu a chael gofynion rheoleiddio cymesur a modern. Dylai rheolaethau ar argraffnodau fod yn briodol i'r cyfryngau gwahanol; ni ddylai fod yn rhy gymhleth dod o hyd i rywle i ddarparu'r wybodaeth berthnasol.⁶²

3.72 Fel y tanlinellwyd gennym yn ein hadroddiad yn dilyn y refferendwm ar annibyniaeth yr Alban,⁶³ cafwyd problemau ymarferol wrth reoleiddio'r gofynion ar gyfer argraffnodau ar ddeunydd electronig yn refferendwm yr Alban. Yn gyffredinol, er gwaethaf y bwriad y dylai'r rheolau fod yn gymesur, roedd cwmpas y rheolau'n golygu bod yn rhaid i swm eang o ddeunydd ymgyrchu o bosibl gynnwys argraffnod. Achosodd hyn beth dryswch ymhlith ymgyrchwyr a'r cyhoedd o ran p'un a oedd angen argraffnod ai peidio ar ddeunydd.

3.73 Mae profiad refferendwm yr Alban yn dangos bod angen ystyried ymhellach sut i wneud y gofynion argraffnod yn fwy cymesur a pherthnasol i ddulliau ymgyrchu modern. Yn ymarferol, dylai'r rheolau ond bod yn gymwys i ddeunydd a gynhyrchir gan ymgyrchwyr er mwyn dylanwadu ar ganlyniad y bleidlais, nid unigolion sy'n mynegi eu barn bersonol.

Argymhelliad 8: Dylai lefel briodol o wybodaeth argraffnod fod yn ofynnol ar ddeunydd ymgyrchu refferendwm ar-lein ac electronig.

Er mwyn sicrhau bod pleidleiswyr yn gwbl glir ynghylch pwy yw'r ymgyrchwyr dan sylw, dylai lefel briodol o wybodaeth argraffnod fod yn ofynnol ar ddeunydd ymgyrchu refferendwm ar-lein ac electronig. Fodd bynnag, cyn cyflwyno'r fath ofynion, dylai Llywodraeth a Senedd y DU ystyried yn ofalus y gwersi a ddysgwyd o ddrafftio'r rheolau argraffnod yn Neddf Refferendwm

⁶² Er enghraifft, gellid cynnwys gwybodaeth argraffnodau ar hafan cyfrif yn hytrach na thudalennau unigol.

⁶³ [Y Comisiwn Etholiadol, *Scottish Independence Referendum - Report on the referendum held on 18 September 2014* \(Rhagfyr 2014\).](#)

Annibyniaeth yr Alban 2013 a'u rhoi ar waith. Byddem yn croesawu'r cyfle i weithio gyda'r Llywodraeth ar hyn.

Y cyfryngau cymdeithasol

3.74 Yn ein hadroddiad ar wariant ar ymgyrchu yn Etholiad Cyffredinol Senedd y DU 2015,⁶⁴ gwnaethom dynnu sylw at y diddordeb cynyddol mewn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a chost gyffredinol hynny fel gweithgaredd ymgyrchu. Mae'r un peth yn wir am y defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol fel dull ymgyrchu mewn refferenda.

3.75 Fel y rheolau ar etholiadau, nid oes unrhyw reolaethau penodol o fewn Deddf 2000 ynghylch defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol neu dulliau ymgyrchu digidol mewn refferendwm. Ar y cyfan, bydd unrhyw wariant o'r fath yn destun terfynau gwariant sy'n bodoli eisoes a bydd angen ei gofnodi ar ôl y bleidlais fel deunydd hysbysebu neu ddeunydd ymgyrchu digymell – mae hyn yn gymwys p'un a gaiff ei gynnal ar-lein, ar gyfryngau cymdeithasol neu mewn fformat arall. Fodd bynnag, un o brif gostau dulliau ymgyrchu digidol neu yn y cyfryngau yw'r costau staff cysylltiedig. Ar ddechrau'r bennod hon nodwn nad yw staff a gyflogir yn uniongyrchol yn cyfrif fel gwariant ar ymgyrchu mewn etholiadau na refferenda. Argymhellwn y dylai costau staff sy'n gysylltiedig ag ymgyrch gael eu cynnwys yn y terfynau ar wariant ymgyrchu pleidiau gwleidyddol mewn etholiad a refferendwm.

3.76 Yn sgil y duedd gynyddol i ymgyrchu ar-lein, mae diddordeb pobl mewn dadansoddi gwariant ar y cyfryngau cymdeithasol yn benodol yn cynyddu. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid yw'n hawdd dadansoddi gwariant yn y maes hwn gan fod y cyfryngau cymdeithasol yn gategori adrodd ar wahân; er fel y nodwyd uchod, gellr ei adrodd fel hysbysebu, neu ddeunydd ymgyrchu ddigymell. Er ei bod hi'n bosib chwilio yn ôl enw'r cyflenwr i ddod o hyd i esiamplau o anfonebau am wasanaethau gan blatfform cyfryngau cymdeithasol fel Facebook, ni fydd hi mor hawdd i ddod o hyd i wasanaethau a gafwyd drwy gyfryngwr fel asiantaeth cyfryngau.

3.77 Rydym yn ymwybodol o'r angen am dryloywder mwy ystyrion o ran yr hyn y mae ymgyrchwyr yn ei wario ar y cyfryngau cymdeithasol, drwy ymgyrchu uniongyrchol a thrwy gynnal ymchwil drwy'r cyfryngau cymdeithasol, ond rhaid cydbwysu hyn â rheoliad cymesur ac ymarferol. Fodd bynnag, mae hin bwysig, bod modd adnabod gwariant cyfryngau cymdeithasol yn glir, ac rydym yn ystyried goblygiadau defnyddio'r platfformau hyn i ymgyrchu; gan gynnwys sut dylid addasu'r fframwiath rheoleiddiol addasu i hyn ym mudd pleidleiswyr.

⁶⁴ [Y Comisiwn Etholiadol, UK Parliamentary General Election 2015: Campaign spending report \(Chwefror 2016\).](#)

Rheoleiddio cywirdeb a gwirionedd deunydd ymgyrchu

3.78 Yn ein hadroddiad cyntaf ar refferendwm yr UE,⁶⁵ gwnaethom dynnu sylw at y ffaith bod nifer o sefydliadau, yn ystod ymgyrch y refferendwm, wedi cael cwynion gan y cyhoedd am gynnwys deunydd ymgyrchu. Gwnaethom hefyd nodi, yn dilyn cyhoeddi canlyniad y refferendwm, i gryn sylwebaeth gyhoeddus barhau ynghylch 'gwirionedd' rhai o ddadleuon yr ymgyrch, gan gynnwys o du gwleidyddion ar ddwy ochr y ddadl.

3.79 Er i ni gydnabod nad yw hyn yn annisgwyl yn ystod ymgyrch proffil uchel a thanllyd, ac yn dilyn refferendwm a rannodd y wlad, nodwyd gennym fod materion ynghylch 'gwirionedd' honedig dadleuon yn ystod yr ymgyrch wedi codi cwestiynau am ymddiriedaeth pleidleiswyr yn uniondeb rheolaethau'r refferendwm, ac, mewn rhai achosion, eu bod wedi tanseilio eu hyder yn y canlyniad.

3.80 Daethom i'r casgliad, oherwydd ein rôl annibynnol yn rhedeg ac yn rheoleiddio refferenda yn y DU, y byddai'n amhriodol i'r Comisiwn fod yn rhan o ddadleuon gwleidyddol drwy reoleiddio cywirdeb a gwirionedd dadleuon yn ystod ymgyrch refferendwm. Fodd bynnag, gwnaethom nodi y byddem yn hapus i gyfrannu at unrhyw drafodaeth ar y mater hwn yn y dyfodol.

3.81 O ystyried y cwestiynau a godwyd am ymgyrchu yn ystod cyfnod y refferendwm, roeddem o'r farn y byddai'n fuddiol ymchwilio i'r materion ymhellach. Ar 1 Tachwedd 2016, gwnaethom gynnal cyfarfod gyda chynrychiolwyr o CSPL, yr Awdurdod Safonau Hysbysebu ac Awdurdod Ystadegau'r DU. Cynhaliwyd ail gyfarfod gyda chynrychiolydd ychwanegol o'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, ynghyd â chynrychiolwyr o'r sector darlledu, ar 14 Mawrth 2017. Cydnabu'r grŵp yr heriau ynghlwm wrth geisio lleddfu pryderon am gynnwys honiadau ymgyrch ond cytunwyd i ystyried ymhellach p'un a ellid datblygu cynigion realistig ac ymarferol.

3.82 Hefyd, ar 22 Tachwedd 2016, cynhaliodd CSPL, ynghyd ag Uned Cyfansoddiad Coleg Prifysgol Llundain, seminar yr aethom iddi ynghyd â nifer o sefydliadau eraill i ystyried "effaith refferenda yn y DU". Mae CSPL wedi cyhoeddi papur gweithredol sy'n edrych ar y themâu a ddeilliodd o drafodaeth y dydd a'r camau nesaf arfaethedig yn dilyn y seminar honno. Mae'r papur hefyd yn nodi y bydd CSPL, y Comisiwn a chyrrff cyhoeddus eraill yn parhau i ymchwilio i faterion ynghylch cynnal refferenda yn y DU.⁶⁶

⁶⁵ [Y Comisiwn Etholiadol, *The 2016 EU referendum - Report on the 23 June 2016 referendum on the UK's membership of the European Union \(Medi 2016\)*.](#)

⁶⁶ [Joint Committee on Standards in Public Life – Constitution Unit seminar on the conduct of referendums in the UK: 22 November 2016. Working Paper – Referendum seminar: Balance, Information and Engagement.](#)

Gwariant y Llywodraeth

3.83 Mae adran 125 o Ddeddf 2000 yn gosod cyfyngiadau statudol ar gyhoeddi deunydd hyrwyddo ynghylch refferenda gan Weinidogion, adrannau'r Llywodraeth, awdurdodau lleol a rhai personau neu gyrff cyhoeddus eraill sy'n derbyn arian cyhoeddus yn ystod y cyfnod o 28 diwrnod yn dilyn y diwrnod pleidleisio. Mae'r cyfyngiadau'n ymwneud â chyhoeddi gwybodaeth gyffredinol am y refferendwm yn ogystal â'r materion a'r dadleuon o blaid neu yn erbyn cwestiwn y refferendwm.

3.84 Heblaw am gyfyngiadau adran 125, nid oedd y rheolaethau rheoleiddiol eraill a oedd yn gymwys i refferendwm yr UE yn gymwys i'r Llywodraeth. Y rheswm dros hyn yw, o ran Imiwedd y Goron, os nad yw Deddf yn benodol gymwys i'r Goron, yna nid yw'n rhwym, onid yw'n rhwym ar sail rhwymedigaeth angenrheidiol. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu, y tu hwnt i'r 28 diwrnod olaf, nad oes unrhyw gyfyngiadau ar y Llywodraeth mewn perthynas â chyhoeddi gwybodaeth am refferendwm ac nad oes terfyn ar faint y gall ei wario. Hefyd, nid yw Deddf 2000 yn gosod unrhyw ofynion o ran tryloywder gwariant y Llywodraeth.

3.85 Yn ein hadroddiad cyntaf ar refferendwm yr UE, gwnaethom ystyried yn fanwl effeithiolrwydd y rheolaethau ar lywodraethau a chyrrff eraill a ariennir yn gyhoeddus.⁶⁷ Gwnaethom hefyd ystyried goblygiadau rheolaethau rheoleiddiol y refferendwm i sefydliadau eraill megis y Comisiwn Ewropeaidd, Banc Lloegr a Phwyllgorau Dethol Seneddol.

3.86 Gwnaethom drafod dau weithgaredd penodol a gyflawnwyd gan y Llywodraeth yn ystod y cyfnod yn arwain i fyny at y refferendwm: y llyfryn a anfonwyd i gartrefi a gwefan refferendwm y Llywodraeth. Amcangyfrifwyd bod y llyfryn wedi costio tua £9.3 miliwn ac fe'i hategwyd gan wybodaeth a gyhoeddwyd ar wefan refferendwm y Llywodraeth ei hun.⁶⁸ O ran y wefan, tynnodd y Llywodraeth ddolenni iddi o wefannau eraill gov.uk cyn i'r 28 diwrnod olaf cyn y bleidlais ddechrau er mwyn cydymffurfio â chyfyngiadau adran 125.

3.87 Er i ni gydnabod bod refferendwm yn cyflwyno set unigryw o amgylchiadau i unrhyw Lywodraeth, mae'n bwysig sicrhau hyder ymhlith pleidleiswyr ac ymgyrchwyr bod ymgyrch refferendwm wedi'i chynnal yn deg. Yn arbennig, dylai pleidleiswyr ac ymgyrchwyr fod yn hyderus nad yw defnydd y Llywodraeth o arian cyhoeddus wedi arwain at anghydbwysedd yn yr ymgyrch gyffredinol.

3.88 Daethom i'r casgliad y gallai'r diffyg rheolaethau clir ac ystyrion ar weithgareddau llywodraethau a chyrrff eraill a ariennir yn gyhoeddus (sef absenoldeb unrhyw sancsiynau am dorri rheolau yn enwedig) danseilio

⁶⁷ [Y Comisiwn Etholiadol, *The 2016 EU referendum - Report on the 23 June 2016 referendum on the UK's membership of the European Union* \(Medi 2016\).](#)

⁶⁸ [Fersiwn archif o dudalennau gwe refferendwm Llywodraeth Ei Mawrhydi \(gan gynnwys dolen i lyfryn y Llywodraeth\)](#)

ymddiriedaeth pleidleiswyr yn uniondeb rheolaethau refferendwm, ac, yn yr achosion mwyaf difrifol, danseilio hyder yng nghanlyniad y refferendwm. Argymhellwn y dylai adran 125 o Ddeddf 2000 gael ei hailddrafftio'n sylweddol cyn unrhyw refferendwm yn y dyfodol er mwyn egluro natur a chwmpas y cyfyngiad ar weithgareddau gan Lywodraethau a chyrff eraill a ariennir yn gyhoeddus yn ystod cyfnod y refferendwm. Dylid nodi'n glir pa weithgareddau y cyfyngir arnynt, a ph'un a oes unrhyw eithriadau penodol; dylai fod yn glir pryd mae'r cyfyngiadau'n gymwys; a dylai fod yn glir pwy sy'n gyfrifol am orfodi'r cyfyngiadau, a beth fyddai'r cosbau am unrhyw achos o dorri'r cyfyngiadau. Cynhwysir ein hargymhelliad yn atodiad 2 (argymhelliad 15).

3.89 Nodwyd y dylai Llywodraeth y DU ymgynghori ar opsiynau i ailddrafftio adran 125 o Ddeddf 2000, gyda'r nod o ddiwygio deddfwriaeth cyn gynted â phosibl, ymhell cyn unrhyw ddeddfwriaeth benodol ar gyfer refferendwm yn y dyfodol. Byddwn hefyd yn llunio ein barn glir ein hunain i'w hystyried gan Lywodraeth a Senedd y DU.

Proses ar gyfer hawliadau a thaliadau hwyr

3.90 O dan Ddeddf 2000, roedd yn ofynnol i ymgyrchwyr yn refferendwm yr UE dderbyn eu holl anfonebau o fewn 30 diwrnod i'r diwrnod pleidleisio a'u talu o fewn 60 diwrnod i'r bleidlais. Nod y rheolaethau yw atal ymgyrchwyr a'u cyflenwyr rhag cynllwynio i osgoi'r rheolaethau ariannol ar ymgyrchu. Mae terfyn amser ar gyfer derbyn hawliadau, a sancsiynau i atal diffyg cydymffurfiaeth â nhw, yn helpu i sicrhau bod tystiolaeth o wariant a reoleiddir yn cael ei chyflwyno gyda ffurflenni gwariant ymgyrchwyr.

3.91 Petai ymgyrchwyr yn cael hawliad am daliad ar ôl y dyddiad hwnnw, byddai'n rhaid iddynt gael caniatâd gan y llys i dalu'r darparwr. Os na fyddent yn gwneud hyn cyn iddynt dalu'r hawliad, gallent gael sancsiwn sifil neu gael eu herlyn yn droseddol. Mae'r un rheolau yn gymwys i bleidiau ac ymgyrchwyr eraill a reoleiddir gan Ddeddf 2000.

3.92 I'r gwrthwyneb, rhoddodd y ddeddfwriaeth ar gyfer refferendwm annibyniaeth yr Alban yn 2014 y pŵer i'r Comisiwn awdurdodi talu anfonebau ar ôl y terfynau amser statudol. Nod hyn oedd lleihau'r baich ar ymgyrchwyr a chost ymdrin â cheisiadau hawliadau a thaliadau hwyr.

3.93 Yn ymarferol, cyflawnodd proses y Comisiwn o ymdrin â hawliadau a thaliadau hwyr yn refferendwm annibyniaeth yr Alban ei nodau o leihau beichiau a chostau i ymgyrchwyr. Gwnaethom hefyd ddod i'r casgliad ei bod yn debygol iddi gyflawni arbedion sylweddol o ran arian cyhoeddus, o gymharu â mynd i'r llys i wneud pob cais. Yn dilyn refferendwm 2014, gwnaethom nifer o argymhellion a oedd â'r nod o wella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau ar hawliadau a thaliadau hwyr, lleihau beichiau ar ymgyrchwyr a

chost ymdrin â'r ceisiadau hyn.⁶⁹ Hyd yn hyn, nid yw'r Llywodraeth wedi rhoi'r argymhellion hyn ar waith.

3.94 Er mwyn cydymffurfio â'r rheolaethau ar hawliadau a thaliadau hwyr, lleihau beichiau ar ymgyrchwyr a chost ymdrin â cheisiadau, dylid ystyried ai proses o ymdrin â hawliadau a thaliadau hwyr gan y Comisiwn Etholiadol fyddai'r dull mwyaf priodol mewn unrhyw refferendwm yn y dyfodol.

Adrodd

Adrodd cyn y bleidlais ar roddion a benthyciadau

3.95 O dan Ddeddf 2000, mae'r gofynion ar gyfer adrodd ar roddion a benthyciadau refferendwm yn golygu nad oes sicrwydd y caiff pleidleiswyr weld y wybodaeth am bwy sydd wedi ariannu'r ymgyrchwyr nes ar ôl y bleidlais. Er mwyn gwella tryloywder, roedd y ddeddfwriaeth ar gyfer refferendwm yr UE yn ei gwneud yn ofynnol i ymgyrchwyr cofrestredig adrodd ar roddion a benthyciadau dros £7,500 a gafwyd i dalu treuliau'r refferendwm yn y cyfnod cyn y bleidlais.⁷⁰

3.96 Cyflwynodd ymgyrchwyr cofrestredig eu hadroddiad cyntaf cyn y bleidlais ar ddiwedd y cyfnod adrodd y gwnaethant gofrestru ynddo. Roedd yr adroddiad cyntaf hwn yn cynnwys yr holl roddion a benthyciadau a oedd dros £7,500 yn ôl i ddechrau Deddf Refferendwm yr UE ar 1 Chwefror 2016. Roedd hyn yn cynnwys rhoddion a benthyciadau cyn ac ar ôl i'r ymgyrchydd gofrestru. Roedd hyn yn ychwanegiad pwysig at y rheolau adrodd cyn y bleidlais a wnaeth sicrhau tryloywder ffynonellau sylweddol o gyllid ymgyrch a gafwyd cyn i gyfnod y refferendwm ddechrau ac ar ôl i ddyddiad y bleidlais gael ei gadarnhau.

3.97 Roedd deddfwriaeth refferendwm yr UE hefyd yn darparu ar gyfer cyfnod adrodd terfynol cyn y bleidlais hyd at y diwrnod pleidleisio gyda dyddiad cyflwyno yn fuan ar ôl y bleidlais. Sicrhodd hyn dryloywder rhoddion a benthyciadau a gafwyd yn agos i'r dyddiad pleidleisio, er bod hynny ar ôl i'r refferendwm gael ei gynnal.

3.98 Yn ystod y cyfnodau adrodd cyn y bleidlais statudol, cofnodwyd cyfanswm o:

- £33,093,484 mewn rhoddion; £14,943,376 gan ymgyrchwyr 'Aros' a £18,150,109 gan ymgyrchwyr 'Gadael'.

⁶⁹ [Y Comisiwn Etholiadol, *Scottish Independence Referendum - Report on the regulation of campaigners at the independence referendum held on 18 September 2014* \(Mehefin 2015\).](#)

⁷⁰ Mae'r rheolau wedi'u seilio'n sylweddol ar y gofynion adrodd wythnosol sy'n gymwys i bleidiau gwleidyddol sy'n ymladd etholiadau cyffredinol Senedd y DU.

- £6,103,940 mewn benthyciadau; £93,940 gan ymgyrchwyr 'Aros' a £6,010,000 gan ymgyrchwyr 'Gadael'.⁷¹

3.99 Gweithiodd y gofynion adrodd cyn y bleidlais yn dda. Dangosodd ein hymchwil i ymgyrchwyr ar ôl y refferendwm⁷² fod 61% o ymatebwyr o'r farn bod bodloni'r terfynau adrodd cyn y bleidlais yn syml. Fodd bynnag, dadleuodd dau grŵp ymgyrchu mawr (yr oedd un ohonynt yn ddynodedig) fod adrodd cyn y bleidlais yn tarfu ar ymgyrchu'n sylweddol ac y byddai'n anodd ei wneud mewn sefydliadau dros dro, megis grwpiau ymgyrchu.

3.100 Er ein bod yn cydnabod yr adborth gan ymgyrchwyr, heb y rheolaethau hyn ni fyddai wedi bod yn bosibl cyflawni unrhyw dryloywder statudol o ran cyllid ymgyrch y refferendwm i bleidleiswyr nes ar ôl y bleidlais. Mae'r gofynion adrodd cyn y bleidlais yn rheolaethau ychwanegol pwysig sy'n cynyddu tryloywder yn ystod y misoedd cyn pleidlais y refferendwm ac yn helpu i annog ymgyrchwyr i sicrhau eu bod ond yn derbyn rhoddion gan ffynonellau a ganiateir.

3.101 Fodd bynnag, nodwn fod goblygiadau gwahanol reolau adrodd, cyn ac ar ôl y bleidlais, yn arwain at wahaniaeth yn y cyllid a gyhoeddir ar gyfer yr ymgyrch. Y rheswm dros hyn yw ei bod yn ofynnol i ymgyrchwyr cofrestredig gofnodi'r holl roddion a benthyciadau a *gânt* yn eu hadroddiadau cyn y bleidlais, waeth p'un a *dderbynnir* bod y fath arian gan roddwr / benthyciwr a ganiateir yn y pen draw.⁷³ Gellir gweld gwahaniaethau, er enghraifft, os nodir na chaniateir y rhoddwr. Er enghraifft, nododd Vote Leave Ltd ei fod wedi cael rhodd o £10,000 gan unigolyn, sef Jon Moulton, mewn ffurflen cyn y bleidlais, ond fe'i cofnodwyd yn rhodd nas caniatwyd yn ei ffurflen ar ôl y refferendwm.

3.102 Er gwaethaf y gwahaniaeth hwn, rydym yn fodlon bod y camau a gymerir o ran adrodd cyn y bleidlais yn refferendwm yr UE yn taro'r cydbwysedd priodol rhwng y beichiau adrodd a osodir ar ymgyrchwyr yn ystod cyfnod o ymgyrchu dwys a thryloywder amserol cyn i bleidleiswyr fwrw eu pleidlais. Byddai cymryd camau gwahanol a chysoni'r rheolau adrodd i orfod cofnodi rhoddion a *dderbynnir* cyn y bleidlais yn arwain at fwelch mewn tryloywder yn ystod y 30 diwrnod cyn y refferendwm tra bod caniatadwyedd rhoddion a benthyciadau sy'n dod i law yn ystod y cyfnod hwnnw yn cael ei gadarnhau. Mae hefyd yn bwysig nodi bod yn rhaid cofnodi manylion llawn a therfynol cyllid a gwariant ymgyrch ar ôl y bleidlais.

⁷¹ [Mae gwybodaeth am y rhoddion a'r benthyciadau a gofnodwyd cyn y bleidlais](#) ar gael ar ein gwefan.

⁷² [Research among permitted participants at the EU referendum - Justin Fisher \(Brunel University London\) & Bettina Rottweiler \(Brunel University London\) \(25 Awst 2016\).](#)

⁷³ Caiff ymgyrchwyr 30 diwrnod ar ôl *cael* rhodd i gadarnhau a yw'r rhoddwr yn un a ganiateir. Yna rhaid i ymgyrchwyr naill ai *dderbyn* y rhodd neu ei drin yn un nas caniateir. Delir gydag unrhyw roddion a wrthodir yn unol â'r broses a osodir yn Neddf 2000.

Argymhelliad 9: Dylai gofynion adrodd cyn y bleidlais gael eu hymgorffori yn Neddf 2000 fel eu bod yn gymwys i bob refferendwm a gynhelir yn y dyfodol.

Er mwyn cynyddu tryloywder yn y misoedd cyn y refferendwm a helpu i annog ymgyrchwyr i sicrhau eu bod ond yn derbyn rhoddion gan ffynonellau a ganiateir, dylai gofynion adrodd cyn y bleidlais gael eu hymgorffori yn Neddf 2000 fel eu bod yn gymwys i bob refferendwm a gynhelir yn y dyfodol.

Os caiff deddfwriaeth y refferendwm ei phasio ond nad yw'n dod i rym yn syth, dylai'r ddeddfwriaeth alluogi'r gofyniad cofnodi cyn y bleidlais i ddechrau cyn gynted â phosibl.

3.103 Mae hefyd yn ofynnol adrodd cyn y bleidlais yn etholiadau cyffredinol Senedd y DU, ar gyfer pleidiau ers 2000 ac ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau ers 2014. Er ein bod wedi argymhell y dylai adroddiadau wythnosol cyn etholiad gael eu lleihau i llai o adroddiadau cyn yr etholiad⁷⁴ ⁷⁵, nid ydym o'r farn y dylid cymryd camau tebyg mewn perthynas ag adrodd cyn refferenda ar hyn o bryd. Rydym wedi dod i'r casgliad y byddai'r model presennol o gyflwyno sawl adroddiad cyn etholiad yn parhau i fod yn briodol petai ymgeiswyr yn sefyll gan y rhan fwyaf o bleidiau cofrestredig ac yn cael o leiaf rai rhoddion cofnodadwy yn yr wythnosau cyn yr etholiad. Mae hyn yn debyg iawn i'r sefyllfa mewn refferenda lle mae adrodd cyn pleidlais refferendwm ond yn gymwys i ymgyrchwyr sydd wedi cofrestru i fynd i wariant o£10,000 a reoleiddir.

Cofnodi lefel isel o wariant

3.104 O dan Ddeddf 2000, mae'n ofynnol i ymgyrchwyr cofrestredig gyflwyno ffurflen statudol lawn sy'n cynnwys gwybodaeth am eu gwariant a'u rhoddion, waeth faint o wariant a reoleiddir yr aed iddo. Fodd bynnag, gan adeiladu ar brofiad refferendwm annibyniaeth yr Alban yn 2014, roedd y ddeddfwriaeth ar gyfer refferendwm yr UE yn cynnwys darpariaethau i leihau'r beichiau adrodd ar ymgyrchwyr cofrestredig a oedd ond yn gwario lefelau isel ar yr ymgyrch.

3.105 Ar gyfer refferendwm yr UE, roedd ond yn ofynnol i ymgyrchwyr cofrestredig a oedd yn gwario llai na'r trothwy cofrestru o £10,000 gyflwyno naill ai 'ffurflen dim' neu ddatganiad yn cadarnhau nad oeddent wedi gwario mwy na'r trothwy cofrestru. Yn dilyn refferendwm yr UE:

- cyflwynodd 26 o ymgyrchwyr cofrestredig 'ffurflenni dim'
- cyflwynodd 22 o ymgyrchwyr cofrestredig ddatganiad o wariant o dan y trothwy cofrestru.

⁷⁴ [Y Comisiwn Etholiadol, *A regulatory review of the UK's party and election finance laws - Recommendations for change* \(Mehfin 2013\)](#).

⁷⁵ [Y Comisiwn Etholiadol, *UK Parliamentary General Election 2015: Campaign spending report* \(Chwefror 2016\)](#).

3.106 Yn ymarferol, gweithiodd y darpariaethau hyn yn dda i leihau beichiau gweinyddol. Fodd bynnag, gwnaethant arwain at fwllch bach yn nhryloywder cyfanswm y gwariant a reoleiddir ar ymgyrchu yn ystod y refferendwm o gymharu â rheolaethau Deddf 2000 sy'n gofyn am adroddiadau llawn gan bob ymgyrchydd cofrestredig. Y rheswm dros hyn yw nad oedd unrhyw ofyniad statudol i ymgyrchwyr a oedd yn mynd i beth gwariant wedi'i reoleiddio, ond a oedd islaw'r trothwy cofrestru o £10,000, gofnodi unrhyw wybodaeth am faint a wariwyd ganddynt.

3.107 Er mwyn sicrhau peth tryloywder o ran y lefel isel hon o wariant, cafodd ymgyrchwyr yr opsiwn o gofnodi eu gwariant yn wirfoddol fel rhan o'u datganiad o wariant o dan y trothwy cofrestru – yn ymarferol, gwnaeth 22 o ymgyrchwyr hyn gan gofnodi cyfanswm o £55,878.

3.108 Cydnabyddwn nad oes rhaid i ymgyrchwyr nad ydynt yn bwriadu gwario mwy na'r trothwy cofrestru gofrestru a gorfod bodloni'r gofyniad adrodd o gwbl. Fodd bynnag, gan fod y datganiad o wariant o dan y trothwy cofrestru wedi'i ddefnyddio mewn dau refferendwm bellach⁷⁶, mae profiad y digwyddiadau hyn yn dangos y byddai budd o ran tryloywder a rheoleiddio i ofyn am beth gwybodaeth am wariant o leiaf gan ymgyrchwyr sy'n cofrestru ac sy'n mynd i rywfaint o wariant a reoleiddir, ond sydd islaw'r trothwy cofrestru. Byddai gofyn am wybodaeth am wariant yr ymgyrchwyr hyn yn sicrhau tryloywder mwy cywir o ran gwariant a reoleiddir mewn refferendwm ac yn rhoi peth tystiolaeth i'r Comisiwn os ceir honiadau ynghylch y gwariant.

3.109 Mae eisoes yn ofynnol i ymgyrchwyr cofrestredig gofnodi manylion am eu gwariant a reoleiddir a bod yn ymwybodol o'u holl wariant er mwyn llofnodi'r datganiad priodol neu gyflwyno'r ffurflen angenrheidiol. Fel y cyfryw, ni fyddai'n rhy feichus i ofyn am gyfanswm y gwariant a reoleiddir fel rhan o'r datganiad. Byddai hyn yn taro cydbwysedd priodol rhwng lleihau'r beichiau gweinyddol ar ymgyrchwyr a gofrestrodd ond a wariodd lefelau isel yn unig, a sicrhau tryloywder o ran gwariant ymgyrch.

Argymhelliad 10: Dylai ond bod yn ofynnol i ymgyrchwyr sy'n gwario lefelau isel gyflwyno 'ffurflen dim' neu ddatgan swm eu gwariant os yw o dan y trothwy cofrestru.

Er mwyn taro cydbwysedd priodol rhwng lleihau'r beichiau gweinyddol ar ymgyrchwyr a gofrestrodd ond a wariodd lefelau isel yn unig, a sicrhau tryloywder o ran gwariant ymgyrch:

- Dylai'r gofynion i ymgyrchwyr cofrestredig gyflwyno 'ffurflen dim' neu ddatganiad eu bod wedi gwario llai na'r trothwy cofrestru perthnasol, yn hytrach na chwblhau ffurflen gwariant llawn, gael eu hymgorffori yn Neddf 2000 fel eu bod yn gymwys i bob refferendwm a gynhelir yn y dyfodol.
- Pan fo ymgyrchydd yn cyflwyno datganiad ei fod wedi gwario llai na'r trothwy cofrestru perthnasol, dylai fod yn ofynnol iddo gofnodi cyfanswm y gwariant a reoleiddir.

⁷⁶ Refferendwm 2014 ar annibyniaeth yr Alban a refferendwm 2016 ar yr UE.

Cofnodio gwariant wedi'i reoleiddio cyn cofrestru

3.110 O dan Ddeddf 2000, mae ond yn ofynnol i ymgyrchwyr restru gwariant a reoleiddir a darparu tystiolaeth ohono ar ôl y dyddiad y gwnaethant gofrestru â'r Comisiwn. Dim ond ffigur cyffredinol o gyfanswm y gwariant a reoleiddir sydd ei angen cyn y dyddiad hwnnw.

3.111 Felly, mae diffyg tryloywder o ran gwariant cyn cofrestru a chymhelliant posibl i oedi cofrestru er mwyn osgoi datgelu'r gwariant hwnnw'n fanwl. Yn dilyn refferendwm annibyniaeth yr Alban yn 2014, gwnaethom argymhell y dylai'r ffurflen gwariant gynnwys rhestr o wybodaeth ar gyfer unrhyw wariant a reoleiddir, gan gynnwys gwariant cyn i ymgyrchydd gofrestru â'r Comisiwn.⁷⁷ Fodd bynnag, ni chafodd yr argymhelliad hwn ei fabwysiadu ar gyfer refferendwm yr UE.

3.112 Yn ymarferol, cofnodwyd £142,719 gan ymgyrchwyr yn refferendwm yr UE fel gwariant a reoleiddir cyn cofrestru. Heblaw am y cyfanswm, nid yw Deddf 2000 fel y'i diwygiwyd, na darpariaethau Deddf Refferendwm yr UE 2015, yn darparu ar gyfer unrhyw dryloywder pellach o ran y gwariant hwn.

3.113 Mae rheolau refferendwm Deddf 2000 eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i ymgyrchwyr gofnodi cyfanswm y gwariant a reoleiddir yn ystod y cyfnod cyn cofrestru. Felly, ni fyddai gofyn i ymgyrchwyr gofnodi manylion sut yr aed i'r gwariant hwnnw yn cynyddu'r beichiau rheoleiddio sydd arnynt yn anghymesur.

Argymhelliad 11: Dylai fod yn ofynnol i ymgyrchwyr gynnwys rhestr o wybodaeth ar gyfer gwariant cyn cofrestru yn eu ffurflen.

Er mwyn gwella tryloywder a lleihau'r cymhelliant posibl i oedi cofrestru, dylai fod yn ofynnol i ymgyrchwyr cofrestredig sy'n cyflwyno ffurflen gwariant lawn gynnwys rhestr o wybodaeth ar gyfer unrhyw wariant a reoleiddir, gan gynnwys gwariant cyn i ymgyrchydd gofrestru â'r Comisiwn.

Datganiadau ffurflenni

3.114 Cyn refferendwm annibyniaeth yr Alban yn 2014, nodwyd problem dechnegol gyda'r datganiad yn Neddf 2000 y mae'n rhaid i ymgyrchwyr ei lofnodi wrth gyflwyno eu ffurflenni. Fel y'i drafftwyd, mae datganiad Deddf 2000 ond yn darparu ar gyfer sefyllfa lle'r oedd yr holl roddion a dderbyniwyd gan ymgyrchydd yn dod o ffynonellau a ganiateir. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i ymgyrchwyr lofnodi'r datganiad yn gywir pan fyddant wedi derbyn rhodd nas caniateir.

⁷⁷ [Y Comisiwn Etholiadol, *Scottish Independence Referendum - Report on the regulation of campaigners at the independence referendum held on 18 September 2014* \(Mehfin 2015\)](#).

3.115 Cywirodd y ddeddfwriaeth ar gyfer refferendwm annibyniaeth yr Alban yn 2014 a refferendwm yr UE y broblem hon gyda datganiad Deddf 2000 yn llwyddiannus. Fel rhan o ofynion datganiad y ddau refferendwm hyn, fe'i gwnaed yn ofynnol i ymgyrchwyr ddatgan eu bod wedi ymdrin ag unrhyw roddion nas caniateir yn unol â'r ddeddfwriaeth.

Argymhelliad 12: Dylai'r gofynion o ran datganiad ffurflen yn Neddf Refferendwm yr UE 2015 gael eu hymgorffori yn Neddf 2000.

Er mwyn galluogi ymgyrchwyr i lofnodi'r datganiad ffurflen yn gywir pan fyddant wedi derbyn rhodd nas caniateir, dylai'r gofynion o ran datganiad ffurflen yn Neddf Refferendwm yr UE 2015 gael eu hymgorffori yn Neddf 2000 fel eu bod yn gymwys i bob refferendwm a gynhelir yn y dyfodol.

Cyfnod o amser i gyflwyno ffurflenni ar ôl y refferendwm

3.116 Yn dilyn refferendwm annibyniaeth yr Alban yn 2014, gwnaethom ddweud y byddem yn parhau i adolygu p'un a oedd yr amserlen gyflwyno ar gyfer ffurflenni gwariant a rhoddion ar ôl y refferendwm yn dal i fod yn briodol. Ar yr adeg honno, nid oeddem wedi ein darbwyllo y byddai newid y gofynion adrodd o fudd mawr o ran eu tryloywder na'u h ymarferoldeb.

3.117 Mae amserlen Deddf 2000 ar gyfer cyflwyno ffurflenni refferendwm ar ôl y bleidlais yn nodi o fewn tri mis i'r bleidlais os yw ymgyrchydd wedi gwario £250,000 neu lai neu ffurflenni archwiledig o fewn chwe mis i'r rheini a wariodd dros £250,000. Mae'r cyfnodau hyn yr un peth ar gyfer pob digwyddiad etholiadol, waeth beth yw hyd y cyfnod a reoleiddir na'r terfynau gwariant uchaf.

3.118 Fel rhan o reolaethau rheoleiddiol y refferendwm, mae'n bwysig bod ymgyrchwyr yn cael digon o amser i gyflwyno ffurflenni cyflawn a chywir. Er enghraifft, caiff ymgyrchwyr hyd at 60 diwrnod yn dilyn y bleidlais i dalu eu hanfonebau gwariant ar ymgyrchu; yna efallai y bydd angen i ymgyrchwyr ymdrin ag unrhyw hawliadau a thaliadau hwyr. Rhaid i ymgyrchwyr gasglu a chynnwys manylion eu gwariant ar ymgyrchu, a oedd hyd at £7m yn achos refferendwm yr UE, ynghyd â manylion yr holl roddion a benthyciadau a dderbyniwyd ganddynt a oedd dros £7,500. Hefyd, rhaid i ymgyrchwyr sy'n gwario dros £250,000 gael eu ffurflenni wedi'u harchwilio'n annibynnol cyn eu cyflwyno.

3.119 Rydym yn ymwybodol y credir bod yr amserlen gyflwyno ar gyfer ffurflenni ar ôl y refferendwm yn rhy hir, gan oedi tryloywder a chraffu cyhoeddus i bob diben nes bod cyfnod sylweddol wedi bod ar ôl bwrw'r bleidlais. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod y rheolau'n cydbwysu'r angen am graffu cyhoeddus amserol â rheolau cymesur ac ymarferol. Ar hyn o bryd, rydym wrthi'n ystyried materion ehangach yn ymwneud â chynnwys ffurflenni ymgyrch yn gyffredinol a byddwn yn bwydo profiad cynnwys ac amseroldeb ffurflenni refferendwm yr UE i mewn i'r gwaith hwnnw er mwyn ystyried a oes unrhyw sail dros newid.

Gorfodi'r rheolau

Uchafswm dirwyon y Comisiwn Etholiadol

3.120 Ers 2000 bu gennym bwerau sancsiynu yn ymwneud â'r rhan fwyaf o'r gofynion a nodir yn Neddf 2000 ar gyfer pleidiau gwleidyddol, ymgyrchwyr refferendwm ac unigolion a sefydliadau eraill a reoleiddir gan y Ddeddf. Mae ein sancsiynau'n cynnwys hysbysiadau cydymffurfio, cosbau ariannol penodedig o £200 a chosbau ariannol amrywiol hyd at uchafswm o £20,000.

3.121 Yn ein hadroddiad ar wariant ymgyrch Etholiad Cyffredinol Senedd y DU yn 2015⁷⁸, gwnaethom alw am gynyddu uchafswm cosb Deddf 2000 am drosedd unigol i swm a oedd yn fwy cymesur â'r gwariant a'r rhoddion y mae ymgyrchwyr mawr yn ymdrin â nhw. Codwyd pryderon y gallai dirwy o £20,000 ymddangos yn annigonol ac effeithio ar hyder y cyhoedd, yn enwedig os y'i rhoddwyd i ymgyrchydd â gwariant uchel yn dilyn ymgyrch agos. Ers cyhoeddi'r adroddiad hwnnw, rydym wedi rhoi pedair cosb, am yr uchafswm, yn ymwneud â thorri rheolau ar etholiadau.⁷⁹

3.122 Fel mater o egwyddor, mae gennym yr un pryder am ein gallu i roi sancsiynau priodol a chymesur mewn perthynas ag ymgyrchwyr refferendwm. Er enghraifft, gallai'r ymgyrchwyr arweiniol dynodedig yn refferendwm yr UE wario hyd at £7m ar ymgyrchu yn y refferendwm, gallai pleidiau gwleidyddol a oedd yn cofrestru i ymgyrchu wario rhwng £700,000 a £5.5m, a gallai unrhyw unigolyn neu gorff arall a oedd yn cofrestru i ymgyrchu wario hyd at £700,000. Y rhodd unigol mwyaf a dderbyniwyd at ddiben ymgyrchu yn refferendwm yr UE oedd £3.2m⁸⁰ a chafwyd 54 o roddion eraill a oedd dros £100,000.⁸¹

3.123 Yn y cyd-destun hwnnw, fel gydag etholiadau, nid yw cyfyngu ar ein gallu i roi dirwy hyd at £20,000 am drosedd unigol yn ddigon cryf i sicrhau cydymffurfiaeth. Gallai hefyd effeithio ar hyder y cyhoedd yn y gyfundrefn reoleiddio os na allwn roi sancsiynau priodol am dorri rheolau.

Argymhelliad 13: Dylai terfyn presennol y Comisiwn o ran dirwy gael ei adolygu a'i gynyddu.

Er mwyn sicrhau bod ein sancsiynau'n ddigon cryf i atal diffyg cydymffurfiaeth, dylai'r terfyn o £20,000 gael ei adolygu a'i gynyddu i lefel a fyddai'n rhwystr addas, gan adlewyrchu lefel y dirwyon sydd ar gael i reoleiddwyr statudol cymesur eraill, a'r gyfundrefn rheoleiddio ariannol.

⁷⁸ [Y Comisiwn Etholiadol, UK Parliamentary General Election 2015: Campaign spending report \(Chwefror 2016\).](#)

⁷⁹ [Mae crynodebau achos y Comisiwn Etholiadol](#) ar gael ar ein gwefan.

⁸⁰ Mr Peter Hargreaves i Leave.EU Group Ltd.

⁸¹ [Mae gwybodaeth am y cyllid a'r gwariant a gofnodwyd ar gyfer ymgyrch refferendwm yr UE ar gael ar ein gwefan.](#)

Atodiad 1: Ymgyrchwyr cofrestredig

Ymgyrchwyr a gofrestrodd o blaid canlyniad 'Aros'

Adecco (UK) Limited	Global Justice Now	Plaid Werdd yr Alban	Universities UK
Another Europe Is Possible	GMB	Priscilla Nwtkpo	Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
Avaaz Campaigns UK	Labour Movement for Europe	Progress Limited	Undeb y Frigâd Dân
Best For Our Future Ltd	Lawyers - In For Britain	Proud Robinson Ltd	Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu
Cambridge for Europe	Lebara Ltd	Referendum Facts Ltd	Uno'r Undeb
Clientearth	London First	Scientists for EU Limited	Unsain - Undeb y Gwasanaeth Cyhoeddus
Corfforaeth Dinas Llundain	Michelle Ovens Ltd	SCOR UK Company Limited	Virgin Management Limited
Community	Mr Edward Izzard	Social Market Foundation	Wake Up And Vote
Conservative Group for Europe	Mr Matthew Jones	Stronger United Ltd	We Are Europe
Conservatives IN Ltd	Mr Robert Laurence Taylor	The In Campaign Ltd ⁸²	Y Blaid Lafur
Cyngres yr Undebau Llafur (TUC)	Mr Wolfgang Tillmans	The ResPublica Trust	Y Blaid Lafur a'r Democratiaid Cymdeithasol (SDLP)
DDB UK Limited	Mrs Katie Pruszynski	The Scottish Council of the European Movement	Y Blaid Socialaidd Ddemocratiaidd
East Midlands Training Limited	New Europeans Association Ltd	Third Generation Environmentalism Ltd	Y Blaid Werdd
Economists For Remain	Patrick Evershed	UCATT	Y Democratiaid Rhyddfrydol
European Movement of the UK Ltd	Plaid Cymru	UK Indians for Remaining in Europe Ltd	Ymddiriedolaeth Cyfeillion y Ddaear
Federal Trust for Education and Research	Plaid Genedlaethol yr Alban (SNP)	Undeb Gweithwyr Siopau, Dosbarthu a Gwaith Perthynol (USDAW)	-

⁸² The In Campaign Ltd oedd ymgyrchydd arweiniol dynodedig y canlyniad 'Aros'.

Ymgyrchwyr a gofrestrodd o blaid canlyniad 'Gadael'

Brexit Express	Global Britain Limited	Mr Martin Banbury	The Freedom Association Limited
Campaign Against Euro-Federalism	Global Markets Free Nations	Mr Michael Pye	The Leave Alliance Ltd
Campaign for an Independent England Ltd	GO Movement Ltd	Mr Peter Harris	Trade Unionists Against The European Union
Clymblaid y Sosialwyr a'r Undebwyr Llafur	Green-Leaves	Mr Philip Lenton	Traditional Unionist Voice – TUV
Connolly Association	Grassroots Out Ltd	Mr Zaccheus Gilpin	Undeb Cenedlaethol y Gweithwyr Rheilffordd, Morwrol a Thrafnidiaeth
Conservative Grassroots	Imaginexit Limited	Mrs Emmie Sweet	Vapers for Britain
Children of the Atom	JD Wetherspoon PLC	Muslims for GB Limited	Veterans for Britain
Democracy Movement	Labour Leave Limited	News Group Newspapers Ltd	Vote Leave Limited ⁸³
Democrat Publications	Leave.EU Group Ltd	Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (UKIP)	WAGTV Limited
Dr Richard North	Left Leave	Plaid Cymunedau yn Gyntaf Newcastle upon Tyne	Women for Britain
Economists for Brexit	Midwest Group	Plaid Genedlaethol Lloegr	Workers of England Union
English Democrats	Mr Arron Banks	Scientists for Britain Limited	Y Blaid Ddemocrataidd Gymdeithasol
English Lobby	Mr Darren Grimes	The Bow Group	-
FAB says Leave	Mr John Poynton	The Bruges Group	-
Fishing For Leave	Mr John Stanyer	The Campaign For An Independent Britain Limited	-
Global Britain Limited	Mr John Sweeney	The EU Referendum Campaign Limited	-

⁸³ Vote Leave Ltd oedd ymgyrchydd arweiniol dynodedig y canlyniad 'Gadael'.

Atodiad 2: Argymhellion blaenorol ar reoleiddio'r ymgyrch a wnaed yn dilyn refferendwm yr UE

Argymhelliad 10: Dylai'r rheini sy'n gymwys i gofrestru ar gyfer refferendwm fod yr un peth â'r rheini sy'n gymwys i gofrestru fel ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau mewn etholiadau

Argymhellwn fod y rhestr o unigolion a chyrrff sy'n gymwys i gofrestru fel ymgyrchydd mewn refferendwm yn cael ei hymestyn i gyfateb i'r rhestr o ymgyrchwyr cymwys nad ydynt yn bleidiau o dan Ddeddf 2000.

Argymhelliad 11: Dylai fod yn ofynnol i'r person cyfrifol lofnodi'r cais i gofrestru fel ymgyrchydd refferendwm, a chael ei wahardd rhag bod yn berson cyfrifol ar gyfer unrhyw ymgyrchydd refferendwm cofrestredig arall ar yr un pryd

Argymhellwn y dylai'r person a enwir yn berson cyfrifol orfod lofnodi'r cais i gofrestru fel ymgyrchydd refferendwm ac na ddylai'r un person allu bod yn berson cyfrifol ar gyfer mwy nag un ymgyrchydd refferendwm cofrestredig.

Argymhelliad 12: Dylai'r Comisiwn allu gwrthod ceisiadau i gofrestru rhai enwau grwpiau ymgyrchu yn y refferendwm gan gymdeithasau anghorfforedig

Argymhellwn y dylai'r Comisiwn allu gwrthod cais i gofrestru fel ymgyrchydd refferendwm gan gymdeithas anghorfforedig y mae ei enw, ym marn y Comisiwn, yn:

- aflan neu'n sarhaus neu, petai'n cael ei gyhoeddi, yn debygol o fod yn gyfystyr â chyflawni trosedd; neu
- yr un peth ag enw ymgyrchydd refferendwm cofrestredig arall, plaid wleidyddol gofrestrredig neu drydydd parti cydnabyddedig, neu'n debyg iddo.

Argymhelliad 13: Dylai fod yn ofynnol i gymdeithasau anghorfforedig roi manylion eu haelodaeth fel rhan o'u cais i gofrestru fel ymgyrchydd refferendwm

Argymhellwn y dylai'r gofynion cofrestru ar gyfer cymdeithasau anghorfforedig sy'n cofrestru fel ymgyrchydd refferendwm gyfateb i'r gofynion cofrestru ar gyfer cymdeithasau anghorfforedig sy'n cofrestru fel trydydd parti cydnabyddedig mewn etholiadau.

Argymhelliad 14: Dylid dynodi ymgyrchwyr arweiniol cyn i gyfnod y refferendwm ddechrau; neu fel arall dylid ymestyn cyfnod y refferendwm

Argymhellwn, lle bo'r amserlen ddeddfu'n caniatáu, y dylid dynodi ymgyrchwyr arweiniol yn fuan cyn cyfnod y refferendwm, yn hytrach nag yn ystod y chwe wythnos gyntaf, ac y dylid pennu mai'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 12pm (hanner dydd) ar ddyddiad olaf y cyfnod gwneud cais.

Fodd bynnag, os bydd amgylchiadau'n golygu bod yr amserlen ddeddfu'n atal dynodi cyn cyfnod y refferendwm, yna dylai argymhelliad 2011 i ymestyn cyfnod y refferendwm i 16 wythnos o leiaf gael ei fabwysiadu. Byddai hyn yn helpu i roi mwy o amser i grwpiau ymgyrchu arweiniol dynodedig gynllunio a defnyddio'r buddiannau sydd ar gael.

Argymhelliad 15: Dylai Llywodraeth y DU ymgynghori ar opsiynau i ailddrafftio adran 125 o Ddeddf 2000 er mwyn egluro natur, cwmpas a gorfodaeth y cyfyngiadau

Dylai adran 125 o Ddeddf 2000 gael ei hailddrafftio'n sylweddol er mwyn egluro natur a chwmpas y cyfyngiad ar weithgareddau gan Lywodraethau a chyrff eraill a ariennir yn gyhoeddus yn ystod cyfnod y refferendwm. Dylid nodi'n glir pa weithgareddau y cyfyngir arnynt, a ph'un a oes unrhyw eithriadau penodol; dylai fod yn glir pryd mae'r cyfyngiadau'n gymwys; a dylai fod yn glir pwy sy'n gyfrifol am orfodi'r cyfyngiadau, a beth fyddai'r cosbau am unrhyw achos o dorri'r cyfyngiadau.

Dylai Llywodraeth y DU ymgynghori ar opsiynau i ailddrafftio adran 125 o Ddeddf 2000, gyda'r nod o ddiwygio deddfwriaeth cyn gynted â phosibl, ymhell cyn unrhyw ddeddfwriaeth benodol ar gyfer refferendwm yn y dyfodol.